------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Ebrill 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddPlant@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

(Tudalennau 1 - 12)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 1

### 2.2 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

(Tudalennau 13 - 18)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 2

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.3 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

(Tudalennau 19 - 23)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 3

**2.4 Blaenraglen waith**

(Tudalen 24)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 4

**2.5 Blaenraglen waith**

(Tudalen 25)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 5

**2.6 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23**

(Tudalennau 26 - 27)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 6

**2.7 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**

(Tudalen 28)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 7 (Saesneg yn unig)

**2.8 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**

(Tudalen 29)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 8 (Saesneg yn unig)

**2.9 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**

(Tudalennau 30 - 31)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan yr Athro EJ Renold - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 9 (Saesneg yn unig)

**2.10 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**

(Tudalen 32)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Parentkind - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 10 (Saesneg yn unig)

**2.11 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr**

(Tudalen 33)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 11 (Saesneg yn unig)

**2.12 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

(Tudalennau 34 - 36)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 12

**2.13 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 37 - 38)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 13

**2.14 Anghydraddoldebau iechyd meddwl**

(Tudalennau 39 - 53)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 14

**2.15 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 54 - 55)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 15

**2.16 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 56 - 57)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 16

**2.17 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 58 - 59)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a’r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 17

**2.18 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 60 - 61)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 18

**2.19 Blaenraglen waith**

(Tudalennau 62 - 63)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 19

**2.20 Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

(Tudalen 64)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 20

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.30)

## 4 Cymwysterau Cymru - diweddariad ar flaenoriaethau

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 65 - 67)

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## Egwyl

(10.30 - 10.40)

## 5 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr – canfyddiadau o'r gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

(10.40 – 11.15) (Tudalennau 68 – 81)

Dogfennau atodol:

CYPE(6)-09-22 – Papur preifat 1

## 6 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr – trafod y dystiolaeth

(11.15 – 11.45) (Tudalennau 82 – 92)

Dogfennau atodol:

CYPE(6)-09-22 – Papur preifat 2

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 1**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

29 Mawrth 2022

Annwyl Jayne,

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniadau adeiladol i'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 eich pwyllgor ar y Bil ar 4 Mawrth 2022.

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 14 Mawrth, rwyf wedi nodi ymatebion i weddill argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Ni fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi cyflawni'r egwyddorion a'r rhesymu sylfaenol cyn belled ag y bo modd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i nodi'r ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad a’r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda’r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 1. Bod y Senedd yn derbyn egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).**

**Rwy'n nodi ac yn croesawu'r argymhelliad hwn** a chefnogaeth y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil. Hoffwn ddiolch i bob aelod o'r Pwyllgor am graffu'n fanwl ac yn drylwyr ar y Bil.

**Argymhelliad 2. Bod y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddaru i restru'r amcanion polisi ar gyfer y Bil a sut y mae darpariaethau'r Bil yn ceisio eu bodloni.**

**Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn** a byddaf yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r ffordd orau o ehangu'r Memorandwm Esboniadol, pan gaiff ei ddiweddaru ar ôl Cyfnod 2, i roi mwy o eglurder ar y mater hwn.

**Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir i'r Pwyllgor, y Comisiwn a'r sector ehangach sut y mae'n diffinio parch cydradd, sut olwg fyddai ar gyflawni parch cydradd, a sut y mae'n disgwyl i'r sector ôl-16 gyflawni hyn.**

Bydd y diwygiadau a ddaw yn sgil y Bil yn fodd i gyflawni parch cydradd rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd mewn nifer o ffyrdd:

- Yn gyntaf, bydd dod â phrifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith at ei gilydd o dan un cyllidwr a rheoleiddiwr yn sicrhau bod prif ddarparwyr llwybrau galwedigaethol ac academaidd yn cael eu hystyried o dan un ymbarél polisi. Drwy hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant, bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn eu hannog i beidio â bod yn gystadleuol a all greu argraff o ddiffyg parch cydradd rhwng gwahanol lwybrau cymwysterau.

- Yn ail, bydd gan y Comisiwn ddyletswydd strategol i hyrwyddo "amrywiaeth o lefelau astudio a mathau o gymhwyster", "amrywiaeth o leoliadau addysgol a dulliau astudio" a "hwyluso symudiadau dysgwyr" rhwng gwahanol rannau o'r system. Bydd angen i'r Comisiwn ystyried yr un parch at yr holl ddarpariaeth a llwybrau cymwysterau y mae'n eu cyllido.

- Yn drydydd, rydym yn bwriadu i unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm 16-19 ddilyn ymlaen o'r diwygiadau i'r Cwricwlwm i Gymru drwy sicrhau bod gan fyfyrwyr a dysgwyr ystod eang o opsiynau ar gyfer dilyniant o 16 oed ymlaen o ran gwybodaeth, profiadau a sgiliau academaidd a galwedigaethol sy'n datblygu dinasyddion brwdfrydig, cyflogadwy ac entrepreneuraidd.

**Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ystyried y materion a godir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol cyn trafodion Cyfnod 2.**

**Derbyniaf yr argymhelliad hwn** a byddaf yn cyhoeddi Asesiad Diwygiedig o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**Argymhelliad 5. Bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor a Phrifysgolion Cymru ynghylch pam mae'n credu nad oes gan Ddeddf y Farchnad Fewnol oblygiadau i'r Bil hwn.**

Rwyf wedi ystyried darpariaethau'r Bil yng ngoleuni Deddf y Farchnad Fewnol, ac nid wyf o'r farn bod yna oblygiadau i'r Bil hwn.

**Argymhelliad 6. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau i Atodlen 1 yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru bod yn rhaid iddynt roi sylw i'r angen i sicrhau bod y Bwrdd (yn ei gyfanrwydd) yn adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth addysg ac ymchwil, ac amrywiaeth Cymru. Dylai hyn gwmpasu penodi pob aelod i'r Comisiwn, gan gynnwys aelodau cyswllt.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod angen gwelliant i'r Bil.** Yn gyntaf, fel penodiadau cyhoeddus bydd y rhain yn bodloni'r amddiffyniadau presennol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth a Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y llywodraeth ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ail, mae Atodlen 1 (paragraff 2(2)) yn darparu ar gyfer rhestr o sgiliau a phrofiadau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried wrth benodi aelodau'r Bwrdd. Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried gwelliannau i ehangu'r rhestr o brofiadau a nodir.

Yn drydydd, wrth fabwysiadu dull gweithredu ar draws y wlad a'r system drwy'r bil a sefydlu'r comisiwn, rydym yn symud oddi wrth (risgiau) dull seilo. Mae'r dull a nodir yn Atodlen 1 yn adlewyrchu hyn, a'r bwriad yw darparu ar gyfer Bwrdd sy'n cynrychioli anghenion y sector cyfan. Ni fwriedir i aelodau'r Bwrdd gael eu penodi'n gynrychiolwyr ar gyfer y sectorau, sefydliadau neu ddarparwyr unigol traddodiadol. Er fy mod yn cydnabod y bwriad sy'n sail i'r argymhelliad hwn, rwy'n pryderu bod y dull y mae'n ei argymell yn peryglu atgyfnerthu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gynrychiolwyr unigol ar gyfer pob un o'r sectorau traddodiadol.

**Argymhelliad 7. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynyddu cynrychiolaeth gweithwyr a dysgwyr ar y Comisiwn, ac egluro disgwyliad y Llywodraeth yn y Memorandwm Esboniadol y dylai'r Comisiwn geisio mwy na'r isafswm a nodir yn y ddeddfwriaeth.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn ond nid wyf yn derbyn yr angen i gyflwyno gwelliant.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer lefel aelodaeth sylfaenol o ran aelodau cyswllt, ac mae'r opsiwn yno o hyd i ddarparu ar gyfer nifer uwch o aelodau o'r fath.

Fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r Memorandwm Esboniadol yn dilyn Cyfnod 2, fe ystyriaf opsiynau ynghylch amlinellu'r disgwyliadau gan y Comisiwn o ran mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn unig.

**Argymhelliad 8. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi hawliau pleidleisio i'r aelodau cyswllt dysgwyr a gweithwyr ar y Comisiwn.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Bydd cynnwys aelodau cynghori ar y Bwrdd ('aelodau cyswllt') o blith dysgwyr, undebau llafur staff ac undebau llafur y gweithlu addysg drydyddol yn ehangach, yn golygu bod cyfle i'r sawl y mae sefydlu'r Comisiwn yn effeithio fwyaf arnynt gael dylanwadu ar y Bwrdd a'i gynghori.

Un o brif fanteision peidio â rhoi hawliau pleidleisio i aelodau cyswllt ar y Comisiwn yw ei fod yn osgoi gwrthdaro buddiannau drwy wahaniaethu rhwng y gweithgareddau sy'n ofynnol gan yr unigolion hynny fel aelod o'r Comisiwn a gweithgareddau ehangach undeb llafur, yr NUS neu gorff sy'n cynrychioli dysgwyr. Gallai rhoi pleidlais i aelodau cynghori'r Bwrdd greu gwrthdaro buddiannau.

Er na allant bleidleisio'n ffurfiol, eu rôl werthfawr fydd dylanwadu ar y Bwrdd a'i gynghori, gan gynrychioli safbwyntiau'r gweithlu a dysgwyr. Er mwyn sicrhau cydbwysedd sgiliau a chynrychiolaeth o fewn y Bwrdd, ar hyn o bryd mae'r aelodau cyswllt yn ychwanegol at nifer sylfaenol y Bwrdd.

**Argymhelliad 9. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y broses benodi ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn cynnwys proses cyn penodi gan bwyllgor perthnasol y Senedd.**

**Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn** a byddaf yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad. Nid wyf o'r farn bod angen gwneud unrhyw ddarpariaeth ar wyneb y Bil i ddarparu ar gyfer y mater hwn.

**Argymhelliad 10. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys dyletswydd strategol i hyrwyddo cydweithio a chystadleurwydd ym maes gwaith ymchwil ac arloesi.**

**Rwy'n cytuno â'r argymhelliad hwn** ac rwyf eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant yn y maes hwn ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid.

**Argymhelliad 11. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys ymchwilwyr yn adran 5(2) ynghylch gallu'r gweithlu addysg drydyddol ac ymchwil.**

**Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn** ac rwyf wrthi'n ystyried y mater ymhellach.

**Argymhelliad 12. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd gyffredinol i ddiogelu ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Er bod y Bil eisoes yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n glir ynghylch ymreolaeth darparwyr addysg drydyddol o ran eu trefniadau llywodraethu a'u rheolaeth, rwy'n nodi barn rhanddeiliaid a'r Pwyllgor ac rwyf eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant yn y maes hwn.

**Argymhelliad 13. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ehangu rhyddid academaidd y tu hwnt i ddarpariaeth addysg uwch i gynnwys gwaith ymchwil ac arloesi, ac, er mwyn diogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol yn briodol, ehangu darpariaeth ym mhob lleoliad addysg drydyddol arall.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r mesurau diogelu a ddisgrifir fel 'rhyddid academaidd' o dan yr adran hon yn ymwneud â materion penodol, gan gynnwys rhyddid darparwyr i benderfynu ar gynnwys cyrsiau addysg uwch, y dulliau addysgu ac asesu, a phwy gaiff eu derbyn, ynghyd â pha staff academaidd a benodir. Byddai'r pwynt olaf hwn yn cynnwys staff a benodir at ddiben ymchwil ac arloesi.

Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau penodol eraill yn briodol i ymchwil ac arloesi nac i fathau eraill o addysg drydyddol. Er enghraifft, yn achos llawer o gyrsiau addysg bellach, nid oes 'rhyddid academaidd' mewn perthynas â'u hasesiadau, gan mai cyrff dyfarnu cymwysterau sy'n penderfynu arnynt, a bod cynnwys llawer o gyrsiau addysg bellach yn ddibynnol ar ofynion cwricwla lleol, ac mae'r ddwy elfen hon yn anghyson ag adran 15(2)(a).

Caiff penderfyniadau ynghylch pwy i'w derbyn ar gyfer cyrsiau addysg bellach neu brentisiaethau eu gwneud weithiau ar sail penderfyniadau polisi a wneir gan y llywodraeth (a'r Comisiwn yn y dyfodol), yn dibynnu ar gyllid neu gynnydd, a byddai hyn yn anghyson ag adran 15(2)(b).

Yn ogystal, caiff staff addysgu yn y sector addysg bellach eu rheoleiddio gan Gyngor y Gweithlu Addysg, sy'n anghyson ag adran 15(2)(c).

**Argymhelliad 14. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod rhyddid academaidd yn cwmpasu academyddion unigol, o ran eu haddysgu a'u gwaith ymchwil.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i'r argymhelliad hwn ond nid wyf yn ystyried bod angen gwelliant.** Mae adran 16 yn darparu ar gyfer rhyddid academaidd academyddion unigol ar safleoedd darparwyr addysg drydyddol sy'n darparu addysg uwch i gwestiynu a phrofi gwybodaeth a ddaw i law ac i gyflwyno syniadau dadleuol ym mha weithgaredd bynnag yr ymgymerir ag ef.

**Argymhelliad 15. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gryfhau'r ddyletswydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol Gymraeg i adlewyrchu uchelgais Cymraeg 2050 a rôl bwysig y Comisiwn wrth helpu i gyrraedd miliwn o siaradwyr. Mae'n rhaid i'r ddyletswydd ar y Comisiwn fod yn gryfach a mynd ymhellach nag "ateb galw rhesymol".**

**Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn** ac yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor, rwyf eisoes yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant i'r ddyletswydd strategol hon, yn amodol ar nodi dim canlyniadau anfwriadol.

**Argymhelliad 16. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 fel bod y ddyletswydd strategol i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei hehangu i gynnwys hyrwyddo gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor, rwyf eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer gwelliant.

**Argymhelliad 17. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi sut y bydd y Comisiwn yn gweithio ar y cyd ac yn strategol â'r Coleg Cymraeg ar gynllunio a chyflwyno darpariaeth Gymraeg, er mwyn osgoi posibilrwydd dyblygu.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac rwyf, yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, yn ogystal ag adroddiad y Pwyllgor, eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer gwelliant.

**Argymhelliad 18. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo llais y dysgwr.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac rwyf eisoes, yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid, ac adroddiad y Pwyllgor, yn ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau bod pwysigrwydd barn dysgwyr yn cael ei gynnwys yn y dyletswyddau strategol.

**Argymhelliad 19. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu dyletswydd strategol partneriaeth gymdeithasol ar y Comisiwn.**

**Rwy'n cydnabod, ac yn cytuno â'r bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor**, a byddaf yn ystyried a ellir cyflwyno gwelliant priodol sy'n gosod dyletswydd ar y Comisiwn mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol gan roi ystyriaeth lawn i'r cynigion ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol sydd ar y gweill.

**Argymhelliad 20. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 13 o’r Bil er mwyn sicrhau na ellir newid cynllun strategol y Comisiwn heb gytundeb y Comisiwn.**

**Rwy’n nodi’r argymhelliad hwn** a byddaf yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad.

**Argymhelliad 21. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddiwygio adran 19 o’r Bil i sicrhau bod cyfarwyddydau cyffredinol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud drwy Orchymyn yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae'r holl bwerau yn y Bil wedi cael eu hystyried yn drylwyr o ran y modd y mae'r pŵer i gael ei arfer a gweithdrefn briodol y Senedd. Wrth wneud hynny, ystyriwyd natur unrhyw ddarpariaeth bresennol y deilliodd y pŵer ohoni, ond nid yw'r dull hanesyddol o ymdrin â'r pŵer gwreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen yn awtomatig os nad ystyriwyd bod gwneud hynny o reidrwydd yn briodol.

Mae'r pŵer yn adran 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn mewn perthynas â materion penodol, fel y nodir yn adran 19. Mae’r cyfarwyddyd hyn yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach.

Ystyrir bod y gofynion a nodir yn y Bil mewn perthynas â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfarwyddyd, adrodd i'r Senedd bod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi gerbron y Senedd yn ddigonol i sicrhau hygyrchedd a thryloywder y cyfarwyddydau a roddir i'r Comisiwn o dan adran 19.

**Argymhelliad 22. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu dull mwy cyson ac eang o ymdrin â’r dyletswyddau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad ar gyfer pob rhan o’r sector ôl-16, ac nid dim ond y darparwyr hynny sy’n gorfod cofrestru.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliannau mewn perthynas â chyfle cyfartal.

**Argymhelliad 24. Bod y Gweinidog yn rhoi eglurder llwyr ynghylch a fydd corff cenedlaethol yn cael ei sefydlu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.**

Fy mwriad yw symud oddi wrth Gorff Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Oedolion yng Nghymru. Mae'r holl ddarparwyr dysgu oedolion a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Prif Weithredwr a Chadeirydd Dysgu Oedolion Cymru, wedi cael gwybod am fy mhenderfyniad.

Mae pob un ohonynt yn cydnabod bod ystyriaethau polisi wedi symud ymlaen ers i gorff cenedlaethol gael ei ystyried yn 2019 drwy gyflwyno'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Rwyf wedi cymeradwyo £2m o gyllid, a chylch gorchwyl ar gyfer grŵp allanol i ddatblygu'r adolygiad o addysg oedolion, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen 2 flynedd o gydgysylltu cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ar 15 Mawrth dan gadeiryddiaeth Sue Pember o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, awdur yr adroddiad System Dysgu Gydol Oes Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd. Bydd rôl y Cadeirydd yn cael ei chylchdroi wedi hynny er mwyn sicrhau cynwysoldeb ar draws y sector.

Rwy'n falch bod rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Dysgu Oedolion Cymru, y Rhwydwaith Partneriaeth Dysgu Oedolion, Addysg Bellach, Addysg Uwch a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith, ymhlith eraill, yn dod at ei gilydd i groesawu'r cyfeiriad hwn.

**Argymhelliad 25. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd gyllido gytbwys ar wyneb y Bil.**

**Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn,** er fy mod o'r farn y bydd y gwelliant rwyf yn ymchwilio iddo mewn ymateb i argymhelliad 26 yn darparu'r sicrwydd a geisir yn yr argymhelliad hwn, ond fe ystyriaf y mater ymhellach.

**Argymhelliad 26. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswyddau ar y Comisiwn i gyhoeddi manylion, fan leiaf, ei ddyraniadau cyllid; ei fethodolegau cyllido; ei fformiwlâu ariannu; a'i alldro cyllidol, yn ogystal â gosod dyletswydd i fod yn dryloyw yn ei benderfyniadau cyllido.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant.

**Argymhelliad 27. Bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 i alluogi'r Comisiwn i ddarparu cronfa ymchwil ac arloesi i ystod gyfyngedig o gyrff anghofrestredig.**

**Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn** ac rwyf wrthi'n ystyried y mater ymhellach.

**Argymhelliad 28. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i dynnu gwahaniaeth clir rhwng pwerau Gweinidogion Cymru i gyllido darparwyr addysg drydyddol yn uniongyrchol i gynnig darpariaeth cyflogadwyedd, a phwerau cyllido ehangach y Comisiwn.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Er ei bod yn hanfodol nad yw unrhyw ddefnydd o'r pwerau cyllido cydredol gan Weinidogion Cymru yn mynd yn groes i safbwynt strategol y Comisiwn o ran penderfyniadau cyllido, mae'n hanfodol na roddir cyfyngiadau gormodol ar bwerau cyllido Gweinidogion Cymru rhag risg canlyniadau anfwriadol.

Gallai cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cyllid mewn perthynas â darpariaeth cyflogadwyedd greu bylchau yn y pwerau cyllido hynny, gan eu rhwystro rhag gallu cyllido darpariaeth cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae cyllid cyflogadwyedd yn effeithio ar ystod eang o sectorau cyflogaeth, gan gynnwys, er enghraifft, y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai cyfyngu'n llym ar bwerau cyllido Llywodraeth Cymru, neu eu hatal yn llwyr, effeithio ar ffrydiau cyllid darpariaeth cyflogadwyedd yn y dyfodol, a gallai greu sefyllfa waeth i ddysgwyr a sectorau cyflogaeth.

**Argymhelliad 29. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau nad yw unrhyw gynlluniau a gyflwynir gan y Comisiwn ar gyfer newidiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth yn cael effaith andwyol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg na darpariaeth mewn lleoliad ysgol grefyddol.**

**Rwy'n nodi'r bwriad y tu ôl i'r argymhelliad ond nid wyf yn ystyried bod angen diwygiadau pellach i'r Bil er mwyn sicrhau'r mesurau diogelu hyn.** Bydd y ddyletswydd strategol gyffredinol a osodir ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r gofyniad i annog dysgwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru, yn berthnasol i'r Comisiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau ar draws y sector ôl-16, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau o ran darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir.

Yn ogystal, mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol hefyd yn cynnwys mesurau diogelu perthnasol i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg a darpariaeth ysgolion ffydd yn cael ystyriaeth ddyledus wrth gyflwyno cynigion ynghylch ad-drefnu.

Mae darpariaethau'r Bil yn diwygio Penodau 2 a 3 presennol Rhan 3 o Ddeddf 2013, ac yn mewnosod pennod 3A newydd sy'n galluogi'r Comisiwn i weithredu mewn ffordd fwy strategol a chynnig persbectif ehangach i sicrhau bod darpariaeth chweched dosbarth ysgolion mewn ardal benodol yn synhwyrol ac yn gydlynol – mae hyn yn cynnwys sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i ateb y galw, a'r galw a gynllunnir, am ddarpariaeth Gymraeg.

Mae'r diwygiadau i Ddeddf 2013 yn ymwneud â'r cynigion hynny sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth, sef:

- cynigion i sefydlu neu gau ysgol sy'n darparu addysg sydd ond yn addas i ofynion unigolion dros oedran ysgol gorfodol, neu
- cynigion sy'n gwneud addasiad a reoleiddir mewn perthynas ag ysgol, sy'n golygu bod y ddarpariaeth addysg sy'n addas i ofynion unigolion dros oedran ysgol gorfodol yn yr ysgol yn cynyddu neu'n lleihau.

Bydd y Comisiwn yn gallu cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i wneud cynigion ynghylch y chweched dosbarth o dan adran 63A. Caiff adran 54 o Ddeddf 2013 ei diwygio i alluogi'r Comisiwn, o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 54(1), i gyfeirio cynigion at Weinidogion Cymru os ydynt yn effeithio ar addysg chweched dosbarth.

Caiff y Comisiwn wneud ei gynigion ei hun o dan yr amgylchiadau a nodir yn adran 63C o Ddeddf 2013. Os bydd gwrthwynebiad, bydd cynigion y Comisiwn yn ddarostyngedig i'r trefniadau ar gyfer cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru a nodir yn adran 63F.

Yn ogystal â'r mesurau diogelu hyn, bydd adran 63(C) (3) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw gynnig i agor neu gau darpariaeth chweched dosbarth ysgol wirfoddol neu sefydledig.

**Argymhelliad 30. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddileu adran 105, a'i fod yn nodi dull gwahanol o reoli diwydrwydd dyladwy pan fydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i drydydd partïon.**

**Rwy'n cytuno â'r bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor** ac rwy'n archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant i adran 105 er mwyn sicrhau nad yw trefniadau a fwriedir i ddiogelu arian cyhoeddus yn arwain at fiwrocratiaeth neu gymhlethdod ychwanegol diangen.

**Argymhelliad 31. Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o'r gwaith o ddatblygu fframwaith prentisiaethau sy'n ystyried y cyd-destun ehangach y tu hwnt i'r Comisiwn.**

Mae gennym drefniadau cadarn ar waith eisoes ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaeth sy'n seiliedig ar ymgysylltu â chyflogwyr a rhanddeiliaid ehangach.

Dair blynedd yn ôl, cyflwynwyd trefniadau newydd gennym i wella'r broses ddatblygu ar gyfer datblygwyr fframwaith, sy'n canolbwyntio ar ymgynghori â rhanddeiliaid gan gynnwys cyflogwyr, cyrff sector, darparwyr hyfforddiant a chyrff dyfarnu. Mae pob un o'r partïon hyn yn bwydo i mewn i adroddiad tystiolaeth rhanddeiliaid sydd, yn ei dro, yn llywio datblygiad fframwaith drafft, cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r fframwaith.

Mae'r rhain yn drefniadau cadarn a thryloyw, sy'n sicrhau bod yr holl fframweithiau newydd a diwygiedig yn cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ac yn cefnogi sectorau sy'n hanfodol i economi Cymru. Bydd angen i'r Comisiwn ystyried sut y mae'n dymuno parhau i ddatblygu fframweithiau ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 32. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod yn rhaid i gynlluniau diogelu dysgwyr ystyried lles myfyrwyr/dysgwyr a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ystyried a fyddai'n well cyflawni'r argymhelliad hwn drwy ddiwygio'r Bil neu ganllawiau statudol i'r Comisiwn.

**Argymhelliad 33. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adran 126 fel mai dim ond pan fydd yn ymwneud yn uniongyrchol â swyddogaethau Gweinidogion Cymru y gall Gweinidogion Cymru ofyn am wybodaeth gan y Comisiwn.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.** Y bwriad yw i'r Comisiwn weithredu fel canolfan ddata a datblygu arbenigedd mewn addysg drydyddol, gan alluogi'r Comisiwn i weithio ochr yn ochr â darparwyr addysg drydyddol. Bydd Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar y Comisiwn i gyflawni'r rôl honno, fel y maent nawr yn dibynnu ar CCAUC. Fodd bynnag, bydd

Gweinidogion Cymru yn atebol i'r Senedd am sut caiff yr arian cyhoeddus a ddarperir i'r Comisiwn ei wario, ac o bryd i'w gilydd bydd angen iddynt weld gwybodaeth am y sector.

Ar hyn o bryd, mae adran 69(1)(a) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ddarparu'r wybodaeth neu'r cyngor i Weinidogion Cymru y bydd ei angen arnynt o bryd i'w gilydd ynghylch y ddarpariaeth addysg uwch yn eu hardal. Drafftiwyd adran 126 gyda'r bwriad o weithredu yn union yr un ffordd ag y mae'n gweithredu ar hyn o bryd, ond gyda chwmpas darparwyr ehangach.

**Argymhelliad 34. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i greu gofyniad diamwys i gael cydsyniad corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch cyn ei diddymu, neu y diddymir ar gais corff llywodraethu corfforaeth addysg uwch.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** ac rwyf, yng ngoleuni tystiolaeth rhanddeiliaid ag adroddiad y Pwyllgor, eisoes yn archwilio opsiynau ar gyfer gwelliant.

**Argymhelliad 35. Bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ehangu'r diffiniad i gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, yn unol â'r diffiniad yn y Nodiadau Esboniadol.**

**Nid wyf yn ystyried bod angen diwygio'r diffiniad.** Mae adran 139 o'r Bil yn diffinio addysg drydyddol mewn perthynas ag addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant, a'r rheini yn eu tro wedi'u diffinio o fewn yr adran. Rwy'n fodlon bod dysgu oedolion yn y gymuned wedi'i gynnwys yn y diffiniad o addysg drydyddol, ac nad oes angen gwelliannau. Bwriad y cyfeiriadau presennol yn y Nodiadau Esboniadol at ddysgu oedolion yn y gymuned yw rhoi esboniad ac eglurder ynghylch y darpariaethau y mae'r nodiadau yn cyfeirio atynt.

**Argymhelliad 36. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi rheoliadau drafft ar:**

- **Gategorïau cofrestru (adran 23(2))**
- **Amodau cofrestru (adrannau 25(3); 31(1); 32)**
- **Dynodi darparwyr addysg drydyddol eraill (adran 81(4))**
- **Sicrhau a chyllido addysg drydyddol (adran 91(3); 91(7)(b))**
- **Prentisiaethau (adran 107(4))**
- **Y Brifysgol Agored (adran 140(1)**

**cyn trafodion Cyfnod 2.**

**Ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.** Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau angenrheidiol, ac i sicrhau bod y rheoliadau hynny'n adlewyrchu unrhyw fireinio i'r Bil ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor, nid wyf yn rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i rannu rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor tra bo'r Bil yn destun craffu.

**Argymhelliad 37. Bod y Gweinidog yn rhoi mwy o eglurder, naill ai fel rhan o'r ddadl yng Nghyfnod 1 neu'n ysgrifenedig cyn i Gyfnod 2 ddechrau ar sut y bydd y Bil yn cyd-fynd â Deddf 2018 ac y bydd yn cefnogi darpariaeth a chymorth priodol i ddysgwyr a myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.**

Mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaeth rhwng y darpariaethau a'r dyletswyddau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf 2018) a'r gofynion statudol i ddarparu trosolwg strategol, cyllido a rheoleiddio a osodir ar y Comisiwn,

gan gydnabod yr elfennau rhyngddibynnol a rolau a chyfrifoldebau gwahanol y cyrff dan sylw.

Efallai y byddai o gymorth pe bawn i yn gyntaf yn esbonio sail y darpariaethau sydd yn y Bil mewn perthynas ag ADY, a sut mae Deddf 2018, ynghyd â darpariaethau'r Bil, yn cefnogi dysgwyr sydd ag ADY.

Mae Deddf 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a phobl ifanc sydd ag ADY mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16, neu sy'n dymuno dilyn cyrsiau ôl-16. Mae manylion y dyletswyddau statudol i gefnogi dysgwyr unigol sydd ag ADY i'w gweld yn Neddf 2018 a'r is-ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Deddf 2018 hefyd yn gosod dyletswyddau mwy cyffredinol ar unigolion penodol i gefnogi'r broses o weithredu'r system ADY yn effeithiol. Er enghraifft, mae rhai o'r dyletswyddau mwy cyffredinol hynny yn ymwneud â gwella a sicrhau gallu'r gweithlu i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol, gan gynnwys darpariaeth o'r fath yn Gymraeg.

Mae'r dyletswyddau mwy cyffredinol hynny yn cynnwys dyletswyddau ar Weinidogion Cymru wrth gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 sy'n ymwneud â darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16. Er enghraifft, rhaid i Weinidogion Cymru, wrth sicrhau darpariaeth cyfleusterau o'r fath, ystyried yr addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyflogeion a darpar gyflogeion ar gael a all gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg (adrannau 31 a 32 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, fel y'i diwygiwyd gan adran 50 o Ddeddf 2018).

Mae meddylfryd y Bil o safbwynt materion ADY yn seiliedig ar ddarpariaethau Deddf 2018. Mae'r Bil yn gosod dyletswyddau tebyg ynghylch materion sy'n effeithio ar y system ADY ar y Comisiwn wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant. O gydio yn yr enghraifft yn y paragraff diwethaf, felly, mae adran 93 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried y mater hwnnw, ynghyd â materion penodol eraill sy'n ymwneud ag ADY, wrth gyflawni ei swyddogaethau yn adrannau 90 i 92 i sicrhau darpariaeth cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant.

Yn yr un modd, mae adran 99 o'r Bil, fel y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru o dan adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant ynghyd â swyddogaethau cysylltiedig penodol, ystyried anghenion unigolion ag ADY a'r ddelfryd o gael cyfleusterau a fyddai'n helpu i gyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf 2018.

Yn gyffredinol, felly, mae'r dyletswyddau sydd ar y Comisiwn o ran ADY yn adlewyrchu'r dyletswyddau sydd ar Weinidogion Cymru yn y maes hwn yn sgil Deddf 2018. Mae yna rai darpariaethau ychwanegol hefyd. Er enghraifft, mae'r ddyletswydd yn adran 99 i roi sylw i'r materion hynny sy'n ymwneud ag ADY hefyd yn berthnasol i swyddogaeth y Comisiwn o roi cymorth ariannol i ddarparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau ynghylch addysg neu hyfforddiant. Y rheswm am hyn yw y gallai'r materion ADY hynny fod yn berthnasol i gyflawni'r swyddogaeth honno. Enghraifft arall yw diwygiad y Bil i adran 65 o Ddeddf 2018 i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru ymateb i gais awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall at ddiben cyflawni ei swyddogaethau ADY. Er enghraifft, efallai fod gan y Comisiwn neu Weinidogion Cymru wybodaeth ychwanegol a fyddai'n helpu awdurdod lleol i gyflawni ei swyddogaethau ADY. Bydd gofyn i'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru hefyd roi sylw i'r canllawiau perthnasol yn y Cod ADY wrth ddelio ag unrhyw gais o'r fath.

Rwyf nawr am droi at sut mae Deddf 2018 a'r Bil, gyda'i gilydd, yn cefnogi'r ddarpariaeth i ddysgwyr ag ADY.

Mae Deddf 2018 yn gosod dyletswyddau ar gyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach mewn perthynas â chyflawni anghenion y myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda nhw ac sydd ag ADY[1]. Yn ogystal, mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran pobl ifanc ag ADY. Gallai hyn olygu bod awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol person ifanc sydd wedi cofrestru mewn sefydliad addysg bellach; mewn rhai achosion gallai olygu bod yr awdurdod lleol yn sicrhau ac yn cyllido darpariaeth ADY arbenigol mewn sefydliadau eraill ar gyfer dysgwyr unigol 16-25 oed lle mae angen gwneud hynny i gyflawni anghenion addysg neu hyfforddiant rhesymol dysgwyr[2]. Hyd nes y gweithredir darpariaethau Deddf 2018, bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau lleoliadau arbenigol o'r fath ar gyfer dysgwyr unigol.

O dan y Bil, bydd y Comisiwn (yn hytrach na Gweinidogion Cymru) yn gyfrifol am sicrhau cyfleusterau priodol a rhesymol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant (sy'n cynnwys darpariaeth ADY), wedi rhoi sylw i amrywiol faterion, gan gynnwys rhai sy'n berthnasol i ADY a dysgwyr ADY. Y bwriad yw bod y Comisiwn, wrth benderfynu sut i gyflawni'r swyddogaethau hyn a swyddogaethau cysylltiedig, yn rhoi sylw i ystyriaethau ADY ac yna'n gwneud penderfyniadau sy'n helpu i gefnogi'r broses o weithredu'r system ADY yn effeithiol.

Un o'r materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddo wrth sicrhau darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant yw'r cyfleusterau y gellid sicrhau'r ddarpariaeth ohonynt yn rhesymol gan eraill (adran 93(1)(f)). Gan mai awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol yn y pen draw dros sicrhau darpariaeth arbenigol i bobl ifanc sydd ag ADY lle bo'i hangen (fel yr esbonnir uchod), mae adran 93(1)(f) yn nodi'n benodol bod y ddarpariaeth y gellid ei sicrhau'n rhesymol gan eraill yn cynnwys darpariaeth a sicrheir gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2018.

Mae'r trefniadau manwl ar gyfer gweithredu'r diwygiadau ADY ar gyfer y sector ôl-16 yn cael eu cwblhau'n derfynol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros sicrhau darpariaeth arbenigol ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth i awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder, mae'n bwysig bod gweithredu'r elfennau o Ddeddf 2018 sy'n ymwneud â'r sector ôl-16 ynghyd â gweithredu darpariaethau'r Bil yn parhau i gael ei ddatblygu mewn ffordd gydlynol, gydgysylltiedig.

[1] Mae dyletswyddau tebyg ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir hefyd ynghylch cyflawni anghenion eu disgyblion cofrestredig (gan gynnwys unrhyw ddisgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol) sydd ag ADY.
[2] Gweler adran 14 o Ddeddf 2018 a Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021, rheoliadau 6-10.

Eitem 2.2

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 2**

**Jeremy Miles AS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

29 Mawrth 2022

Annwyl Peredur,

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 04 Mawrth 2022.

Croesawaf y casgliad bod y Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan â goblygiadau ariannol y Bil. Sylwaf fod y Pwyllgor yn teimlo na all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol i gyflawni'r ddeddfwriaeth oherwydd nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gallu mesur y costau i gyrff eraill.

Os rhoddir costau ychwanegol ar gyrff eraill, rhagwelir y byddai hyn o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth. Roeddwn am sicrhau'r Pwyllgor, yn unol â'r arfer safonol, y byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o ganlyniad i'r Bil hwn yn cael ei hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol lle bo'n berthnasol. Byddai hyn yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, gan gynnwys y costau i gyrff eraill.

Rwyf wedi nodi ymatebion i argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad ac er na fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn, rwy'n gobeithio y bydd hyn yn ddefnyddiol i chi.

Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Argymhelliad 1. Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi nodi bod angen rhagor o wybodaeth ariannol. Pe bai newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ymddangos gerbron y Pwyllgor i ystyried y newidiadau hynny'n fwy manwl.**

**Nodaf yr argymhelliad hwn.** Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei ddiweddaru yn unol â'r weithdrefn safonol ar ôl Cam 2. Caiff ei ddiweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ac yng ngoleuni argymhellion y Pwyllgor. Bydd yr amcangyfrifon cost hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn seiliedig ar y ffigurau diweddaraf. Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at newidiadau sylweddol i'r ffigurau cyffredinol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad yw niferoedd staff disgwyliedig y Comisiwn, prif elfen y gost gyffredinol, wedi newid ers mis Tachwedd. Rwy'n cydnabod awydd y Pwyllgor i archwilio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru, ac felly byddaf yn rhannu copi gyda'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl Cyfnod 2 er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried y wybodaeth ddiweddaraf a gofyn unrhyw gwestiynau dilynol cyn Cyfnod 3.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith pellach yn dadansoddi ac yn amcangyfrif buddion cost y Bil. Dylid diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn**. Nodir amrywiaeth o fanteision heb eu meintioli yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd y manteision a fydd yn deillio o'r diwygiadau yn arwain at ganlyniadau go iawn, fel gwell canlyniadau addysgol i ystod ehangach o ddysgwyr ac, yn fwy cyffredinol, gweithlu mwy medrus sy'n sicrhau mwy o gynhyrchiant yn yr economi.

Mae manteision unrhyw ddiwygiadau addysg yn heriol i'w mesur ac nid yw llawer o'r costau, yn enwedig y rhai a allai gael eu hysgwyddo gan gyrff eraill, yn hysbys ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl nodi manteision cost manwl ar ffurf feintiol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd y manteision yn cael eu tracio a'u dadansoddi ar ôl gweithredu a bydd y Comisiwn yn cael ei asesu ar ei gyfraniad i'r nodau hyn a'r cerrig milltir cenedlaethol.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cymaint o eglurder â phosibl am debygolrwydd y risg y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach o ganlyniad i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, difrifoldeb ei effaith ariannol os caiff ei wireddu a goblygiadau ymarferol ailddosbarthu ar Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn newydd.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risg o ailddosbarthu yn isel gan nad yw'r newidiadau a gynigir yn y Bil yn newid graddau'r 'rheolaeth' dros ddarparwyr addysg drydyddol unigol a fydd, fel ar hyn o bryd, yn parhau'n gyrff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu eu polisi cyffredinol eu hunain. Mae'r Bil yn ymwneud â rheoleiddio darparwyr cofrestredig yn gymesur yn hytrach na rheoli sefydliadau.

Mae'r Bil yn ceisio sefydlu corff newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru. Mae dau brif newid a fydd yn effeithio ar ddarparwyr addysg drydyddol mewn cysylltiad ag arian cyhoeddus yng Nghymru:

Newid yn y fframwaith rheoleiddio – mae'r Bil yn cynnig cyflwyno system gofrestru. Mae hyn yn debyg i newidiadau a wnaed yn Lloegr ar ôl sefydlu'r Swyddfa Myfyrwyr. Mae'r corff hwn eisoes wedi'i ddosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, a bydd yn caniatáu i'r Comisiwn sicrhau goruchwyliaeth reoleiddiol o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru sy'n elwa ar ddynodi eu cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Newid yn y berthynas gyllido – mae'r Bil yn cynnig cyflwyno Cytundebau Canlyniadau. Dyma'r modd y bydd y Comisiwn yn trafod gyda darparwyr a gyllidir y gweithgareddau y byddant yn ymgymryd â hwy wrth gyflawni amcanion y Comisiwn yn ei Gynllun Strategol cymeradwy.

Bwriedir i'r Bil sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cynnal annibyniaeth sefydliadau addysg bellach ac uwch a diogelu'r swm sylweddol o arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector addysg drydyddol.

O ran effaith ailddosbarthu, pe bai'r trefniadau rhwng y Comisiwn a'r sefydliadau hyn yn newid i'r graddau y gallai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol benderfynu bod y 'rheolaeth' o fewn y sector cyhoeddus h.y. bod gan y sector cyhoeddus y gallu i bennu diben neu raglen gyffredinol y sefydliadau hyn, byddent yn cael eu hailddosbarthu fel sefydliadau sy’n perthyn i'r sector cyhoeddus a byddai o leiaf rhyw elfen o'u trafodion a'u balansau yn cael ei chynnwys ym Mantolen Gyfunol Llywodraeth Cymru. Byddai hynny’n dibynnu a ydynt yn cael eu hystyried yn gyrff marchnad ai peidio, h.y. yn ariannu 50% neu fwy o'u costau gweithredol o 'werthiannau’:

Os nad yw'r sefydliadau'n bodloni'r meini prawf i fod yn gyrff marchnad, byddai holl asedau a rhwymedigaethau'r sefydliadau hyn "ar" fantolen gyfunol Llywodraeth Cymru, byddai'n rhaid cynllunio, rheoli ac adrodd ar gyllidebau ar gyfer y sefydliadau ar sail adnoddau net a dim ond pan fydd y sefydliadau'n mynd i'r gwariant ac nid wrth dalu y byddai cyllid yn sgorio yn erbyn y gyllideb.

Os yw’r sefydliadau'n bodloni'r meini prawf i fod yn gyrff marchnad, byddant yn Gorfforaethau Anariannol Cyhoeddus a bydd y gyllideb yn cael ei hadrodd ar sail cyllid allanol h.y. mae'r gyllideb yn dangos yr holl drafodion gyda'r sefydliadau wrth dalu ac, os byddant cymryd unrhyw fenthyciadau, bydd y cyllid yn cael ei adrodd yn y gyllideb.

Os nad yw’r sefydliadau'n gyrff marchnad, byddent yn dod o fewn sector y llywodraeth ganolog ac ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol i Lywodraeth Cymru ei hun at ddibenion cyllidebu a chyfrifyddu. Byddai angen cysoni'r sefydliadau, eu dynodi yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig), h.y. byddai adnoddau llawn y sefydliadau hyn yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y cynigion cyllidebol ac yn cael eu pleidleisio gan y Senedd a'u cydgrynhoi yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru os ydynt yn bodloni'r trothwy perthnasedd blynyddol.

Os yw’r sefydliadau'n gyrff marchnad, byddent yn cael eu dosbarthu fel Corfforaethau Cyhoeddus Anariannol. Ni fyddent yn cael eu cysoni, h.y. ni chânt eu dynodi, er y byddai angen iddynt ddarparu rhywfaint o wybodaeth ariannol ar gyfer Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu'r Comisiwn unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Byddwn yn ymgysylltu â’r Swyddfa Ystadegau Gwladol i'w hysbysu pryd y bydd hynny’n

digwydd fel y gallant gynnwys y Comisiwn yn eu blaengynllun, a fydd yn dangos i ni yr amserlen ar gyfer y dosbarthu ffurfiol.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o waith ar y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i ddangos, er eglurder, i ba gostau y mae'r amrywiad +/- 30 y cant yn gymwys.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad** hwn a byddaf yn ceisio cynnwys yr wybodaeth hon pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn nodi pa gostau sy'n destun amrywiad o hyd at 30 y cant a pham. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud hefyd i weld ai'r ganran hon ar gyfer yr amrywiant posibl yw'r mwyaf priodol i'w defnyddio ac, os na, pa ganran y dylid ei defnyddio.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid darparu gwybodaeth fanwl am yr aelodaeth, y cynllun gwaith a'r canlyniadau a fwriedir yn sgil y grŵp gweithredu a strategaeth. Gan gynnwys lle bydd gwaith y grŵp hwn yn arwain at wneud gwelliannau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a beth allai cwmpas y gwelliannau hynny fod.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Sefydlais y Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (AHO) i weithio gyda mi, Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen a swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu goruchwyliaeth strategol a chyngor arbenigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni diwygiadau AHO a datblygu polisi cysylltiedig, trefniadau gweithredu a sefydlu'r Comisiwn. Defnyddir y Bwrdd hefyd fel llwyfan i godi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau polisi ym maes addysg drydyddol ac ymchwil y bwriedir eu cyflwyno mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol ac i ystyried y potensial iddynt effeithio ar ddysgu ôl-16 yng Nghymru.

Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cynrychioli rhanddeiliaid allanol yr effeithir arnynt gan y newidiadau deddfwriaethol a diwylliannol arfaethedig ac mae gan bob un ohonynt ddiddordeb personol mewn cyflawni'r diwygiadau'n llwyddiannus. Mae'n ofynnol i'r aelodau ymgymryd â rôl ragweithiol a chyfranogol gan ddarparu cyngor, arweiniad a her adeiladol ar y gwaith arfaethedig sydd ei angen i gyflawni'r diwygiadau a chefnogi'r broses o drosglwyddo'n ddidrafferth i'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys cyfleu ein gweledigaeth ar gyfer newid, cynghori ar y dyletswyddau a'r amcanion strategol hirdymor, a thynnu sylw at risgiau posibl i gyflwyno'r Comisiwn yn llwyddiannus ac i'r sector ôl-16 ehangach wrth ei weithredu.

Hyd yma, mae'r grŵp wedi cydweithio i ystyried meysydd sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau strategol yn y Bil gan gynnwys yr egwyddorion ansawdd lefel uchel, y posibilrwydd o fwy o gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, a dyletswydd i gefnogi Dysgu Gydol Oes. Mae'r blaengynllun gwaith yn parhau i fod yn hyblyg ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl yr angen. Bydd trafodaethau yn y dyfodol yn cynnwys y Cynllun Cyflogadwyedd, egwyddorion ymgysylltu â dysgwyr, cyflwyno a datblygu darpariaeth Gymraeg a gwelliannau arfaethedig i'r Bil yng Nghyfnod 2 maes o law. Ceir rhestr o aelodau allanol y Bwrdd yn Atodiad B.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am ystyriaethau'r grŵp gweithredu a strategaeth ynghylch lleoliad y Comisiwn a nifer y staff, gan gynnwys unrhyw effeithiau ariannol sy'n codi yn sgil gwaith y grŵp.**

**Nodaf yr argymhelliad hwn.** Fodd bynnag, mae Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth AHO yn darparu goruchwyliaeth strategol a chyngor arbenigol, ac nid yw'n fwriad i'r Bwrdd gymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau gweithredol. Fel sy'n arferol, mae Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i oruchwylio ochr weithredol y broses o sefydlu'r Comisiwn. Mae aelodaeth Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, CCAUC ac Ochr yr Undebau Llafur. O dan Fwrdd y Rhaglen, ceir nifer o ffrydiau gwaith sy'n ystyried gwahanol elfennau ar sefydlu'r Comisiwn. Y ffrydiau gwaith hyn yw Deddfwriaeth, TG, Adnoddau Dynol, Lleoliad a Chyllid a Llywodraethu. Wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg ar leoliad a niferoedd staffio a'r effaith ariannol ddilynol, bydd unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru yn cael ei chynnwys pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cam 2.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith pellach ar strategaeth leoli, yn enwedig effaith COVID-19 ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hynny, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae gwaith yn mynd rhagddo'n ymwneud â lleoliad y Comisiwn newydd. Mae'n un o ffrydiau gwaith allweddol y rhaglen weithredu. Wrth i fwy o fanylion ddod i'r amlwg, bydd unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru yn cael ei chynnwys pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith ariannol sy'n gysylltiedig â defnyddio ymgynghorwyr TG i drosglwyddo systemau a data Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i'r Comisiwn newydd, ac y dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ceisio cynnwys yr wybodaeth hon pan gaiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio yn dilyn Cyfnod 2**.** Fel y dywedais yn y Pwyllgor, bydd unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr yn cael ei adolygu'n barhaus ac nid yw'r rhaglen wedi diystyru cyflogi staff TG parhaol os yw hynny'n opsiwn gwell o ran gwerth am arian. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn egluro, cyn belled ag y bo modd, effaith ariannol a rhesymeg seilio costau a ragwelir ar ddefnyddio ymgynghorwyr TG.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailasesu'r costau sy'n gysylltiedig â chyrff eraill yn sgil y ddeddfwriaeth hon. Dylid creu'r costau ac unrhyw oblygiadau ariannol drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt a dylid cynnwys y manylion mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.**

**Rwy'n cydnabod y bwriad y tu ôl i argymhelliad y Pwyllgor. Fodd bynnag, nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Ni fu'n bosibl mesur unrhyw gostau ychwanegol posibl i gyrff eraill gan y bydd hyn yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan y Comisiwn unwaith y caiff ei sefydlu. Byddai unrhyw ragdybiaethau neu amcangyfrifon a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn achub y blaen ar y penderfyniadau hyn ac ni fyddent yn darparu ar gyfer amcangyfrifon cywir o unrhyw gostau posibl. Fel y dywedais yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 22 Rhagfyr 2021, rwy'n cydnabod bod risg posibl y gallai'r bil osod costau ychwanegol ar

y darparwyr yn y sector. Rheolir y risg hon drwy fonitro gofalus ac ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy Fwrdd Gweithredu’r Strategaeth, er mwyn sicrhau bod unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir oherwydd y Bil yn gwbl angenrheidiol ac yn cael eu cadw i'r lleiafswm. Os gosodir costau ychwanegol ar gyrff eraill, rhagwelir y byddai hyn o ganlyniad i is-ddeddfwriaeth a fyddai, lle bo'n berthnasol, yn cael ei hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o'r costau, gan gynnwys y costau i gyrff eraill.

**Argymhelliad 10. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnwys adolygiad ôl-weithredu o’r holl Filiau sydd gerbron y Senedd fel arfer safonol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch sut y caiff gwerth am arian ei asesu.**

**Rwy’n derbyn yr argymhelliad hwn.** Mae adolygiadau ôl-weithredu yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu ar gyfer meysydd gwaith yn y dyfodol o ran cynnal arfer da a lle y gellid gwneud gwelliannau.

<u>Aelodau allanol Bwrdd Gweithredu’r Strategaeth AHO</u>

| Sefydliad | Sector a Gynrychiolir |
| --- | --- |
| Addysg Oedolion Cymru | Dysgu Oedolion |
| Gyrfa Cymru | Pawb |
| CBI Cymru | Diwydiant |
| Cadeiryddion Prifysgolion Cymru | Addysg Uwch |
| Colegau Cymru | Addysg Bellach |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | Addysg Uwch |
| CYDAG | Chweched Dosbarth |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Rheoleiddiwr |
| Estyn | Rheoleiddiwr |
| Y Ffederasiwn Busnesau Bach | Diwydiant |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Addysg Uwch |
| Sefydliad y Cyfarwyddwyr | Diwydiant |
| Sefydliad Dysgu a Gwaith | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Pawb |
| Cenhadaeth ein Cenedl: Bwrdd Newid | Chweched Dosbarth |
| Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru | Dysgu Seiliedig ar Waith |
| Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr | Partner Cymdeithasol |
| Cymwysterau Cymru | Rheoleiddiwr |
| Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd | Rheoleiddiwr |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru | Dysgu Gydol Oes<br>Chweched Dosbarth |
| Undeb Prifysgolion a Cholegau | Partner Cymdeithasol |
| Prifysgolion Cymru | Addysg Uwch |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Dysgu Gydol Oes<br>Chweched Dosbarth |

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 3**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

29 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

**Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

Hoffwn ddiolch i chi am eich cyfraniadau adeiladol i'r ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil") yn dilyn cyhoeddi adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor ar y Bil ar 2 Mawrth 2022.

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 14 Mawrth, rwyf wedi nodi ymatebion i weddill argymhellion y Pwyllgor yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Ni fu'n bosibl i mi dderbyn holl argymhellion y Pwyllgor yn llawn. Fodd bynnag, rwyf wedi cyflawni'r egwyddorion a'r rhesymu sylfaenol cyn belled ag y bo modd.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i nodi'r ymatebion i Adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copi o'r llythyrau at bob un o'r tri Chadeirydd Pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 i gadarnhau i'r Senedd p'un a gafwyd y cydsyniad gofynnol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag adran 128.**

Cafwyd cydsyniad gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag adran 128. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at y Llywydd yn cadarnhau hyn ar 1 Mawrth.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog ddarparu fersiynau drafft i'r Senedd o unrhyw reoliadau sydd i'w gwneud neu eu gosod gerbron y Senedd ar gychwyn y ddarpariaeth berthnasol, neu'n fuan ar ôl hynny, cyn gynted â phosibl a thra bo'r Bil yn cael ei ystyried gan y Senedd yn ystod y Cyfnod 2 o'r Bil er mwyn galluogi craffu mwy llawn ar y pwerau perthnasol.**

**Ni allaf dderbyn yr argymhelliad hwn.** Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael digon o gyfleoedd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau angenrheidiol, ac i sicrhau bod y rheoliadau hynny'n adlewyrchu unrhyw fireinio i'r Bil ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor, nid wyf yn rhagweld y byddaf mewn sefyllfa i rannu rheoliadau drafft gyda'r Pwyllgor tra bo'r Bil yn destun craffu.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y nodiadau esboniadol i'r Bil yn ei gwneud yn glir, lle defnyddir rhestrau o enghreifftiau mewn adrannau penodol, nad yw rhestrau o'r fath yn hollgynhwysfawr ac na ddylid eu dehongli felly.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r nodiadau esboniadol pan gânt eu hailgyhoeddi ar ôl Cyfnod 2. Byddaf hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw welliannau i'r Bil er mwyn sicrhau eglurder i'r darllenydd.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil i ymrwymo na fydd y pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael ag anghysondebau rhwng deddfwriaeth Cymru a Biliau'r DU; materion gyda Biliau'r DU sy'n gwneud darpariaeth o fewn meysydd datganoledig; neu unrhyw bryderon eraill ynghylch deddfwriaeth y DU sy'n ymdrin ag addysg drydyddol.**

**Rwy'n nodi'r argymhelliad hwn**. nid bwriad y pwerau i wneud rheoliadau yw cyflawni'r senarios a ddisgrifir.

**Argymhelliad 7. Dylid diwygio'r Bil fel bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi datganiad o dan adran 11.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Ni fydd natur strategol, lefel uchel y blaenoriaethau yr ydym yn bwriadu eu nodi yn y datganiad a gyhoeddir o dan adran 11, yn addas i ymgynghori arnynt yn fy marn i.

**Argymhelliad 8. Dylid diwygio'r Bil i'r perwyl bod cyfarwyddydau a wneir o dan adran 19 o'r Bil yn cael eu gwneud drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol,**

**Argymhelliad 18. Dylid diwygio'r Bil i'r perwyl bod cyfarwyddydau a wneir o dan adran 106 o'r Bil yn cael eu gwneud drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhellion hyn.** Mae'r holl bwerau yn y Bil wedi cael eu hystyried yn drylwyr o ran y modd y mae'r pŵer i gael ei arfer a gweithdrefn briodol y Senedd. Wrth wneud hynny, ystyriwyd natur unrhyw ddarpariaeth bresennol y deilliodd y pŵer ohoni, ond nid yw'r dull hanesyddol o ymdrin â'r pŵer gwreiddiol wedi'i ddwyn ymlaen yn awtomatig os nad ystyriwyd bod gwneud hynny o reidrwydd yn briodol.

Mae'r pŵer yn adrannau 19 a 106 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn mewn perthynas â materion penodol, fel y nodir ar wyneb y Bil. Mae'r cyfarwyddydau hyn yn ymwneud ag un corff a materion penodol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer deddfu cyffredinol o natur ehangach.

Ystyrir bod y gofynion a nodir yn y Bil mewn perthynas â'r gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r cyfarwyddyd, adrodd i'r Senedd bod cyfarwyddyd wedi'i roi a gosod copi o'r cyfarwyddiadau gerbron y Senedd yn ddigonol i sicrhau hygyrchedd a thryloywder y cyfarwyddiadau a roddir i'r Comisiwn o dan adrannau 19 a 106.

**Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog ddefnyddio dadl Cyfnod 1 ar yr egwyddorion cyffredinol i egluro pam bod cofrestru'n angenrheidiol a pham, os yw'n bosibl rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol eraill drwy delerau ac amodau ariannu, nad yw'n bosibl rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn yr un modd.**

Mae'r gofrestr yn angenrheidiol mewn perthynas â darparwyr addysg uwch, sydd nawr yn derbyn cyfran fach yn unig o'u cyllid ar ffurf grantiau rheolaidd y gellir cymhwyso telerau ac amodau iddynt, a'r rhan fwyaf o'u harian cyhoeddus o gymorth i fyfyrwyr.

Pe bai'r gofrestr yn cael ei dileu o'r Bil yna ni fyddai'r Comisiwn yn gallu rheoleiddio darparwyr addysg uwch yn effeithiol oherwydd y ddibyniaeth hon ar gymorth i fyfyrwyr yn bennaf, yn hytrach na grantiau'r Comisiwn, a byddai'r Bil yn methu â chyflawni nifer o'i amcanion allweddol.

Mae'r gofrestr hefyd yn galluogi darparwyr i gael eu rheoleiddio'n briodol ac yn gymesur waeth beth fo ffynonellau eu cyllid a chydbwysedd cymharol y gwahanol ffynonellau cyllid hyn.

Yn ogystal, mae'r gofrestr yn creu'r opsiwn o ddod â phob darparwr addysg drydyddol ynghyd mewn system reoleiddio gyffredin a chydlynol yn y tymor hir. Nid yw hyn yn flaenoriaeth ar unwaith yng nghyd-destun sefydlu'r Comisiwn a sicrhau bod darparwyr sy'n cael cymorth i fyfyrwyr yn cael eu rheoleiddio'n briodol, ac felly nid yw'n bolisi cyfredol gan y llywodraeth. Fodd bynnag, mae hwn yn fater yr ydym yn agored i'w archwilio ymhellach gyda'r sector drwy ymgynghori ac ymgysylltu.

**Argymhelliad 10. Pe bai adran 23 yn parhau yn y Bil, dylid diwygio'r Bil i'r perwyl y dylai'r categorïau cofrestru y cyfeirir atynt gan y Gweinidog at ddiben adran 23 gael eu nodi ar wyneb y Bil. Dylid diwygio'r Bil hefyd i ddarparu ar gyfer pŵer gwneud rheoliadau i alluogi categorïau pellach (neu newidiadau i gategorïau) i gael eu pennu mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** Fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 3, fy mwriad yw sicrhau ein bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gyd-lunio'r rheoliadau angenrheidiol i gefnogi gweithredu'r Bil. Er fy mod yn glir o ran fy mwriad polisi, fel y nodir yn y datganiad o fwriad polisi, hoffwn weld hynny'n cael ei adolygu a'i fireinio drwy ymgysylltu a thrafod â rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 12. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adrannau 39 a 41 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn**. Ar ôl ystyried y darpariaethau hyn ymhellach, rwy'n cytuno ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd a byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

**Argymhelliad 13. O ystyried esboniad y Gweinidog ynghylch lefel y manylion y gellir eu cynnwys mewn datganiad a wneir o dan adran 70 o'r Bil, credwn y dylid diwygio'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau o'r fath gael eu gosod gerbron y Senedd.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn** a byddaf yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer gosod y datganiad gerbron y Senedd. Nid wyf o'r farn ei bod yn briodol i'r datganiad fod yn ddarostyngedig i weithdrefn y Senedd.

**Argymhelliad 15. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adrannau 78(1)(c) a 78(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol.**

**Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn**. Ar ôl ystyried y darpariaethau hyn ymhellach, rwy'n cytuno ei bod yn briodol iddynt fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd a byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

**Argymhelliad 16. Dylid diwygio'r Bil fel bod y rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 105(1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol.**

**Nodaf yr argymhelliad hwn**, er fy mod yn archwilio gwelliant mewn ymateb i argymhelliad 30 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.

**Argymhelliad 19. Dylid diwygio'r Bil fel bod gofynion mewn perthynas â phrentisiaethau Cymreig cymeradwy, at ddiben Rhan 4 o'r Bil, yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol.**

**Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.** O ran y fanyleb prentisiaethau, mae wedi bod yn fwriad ers rhai blynyddoedd i ddefnyddio'r cyfle deddfwriaethol sylfaenol cynharaf i gywiro'r ddarpariaeth yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, sy'n ymdrin â phennu safonau prentisiaeth.

Roedd y Ddeddf hon yn efelychu'r gweithdrefnau ar gyfer Lloegr ar gyfer Cymru (diddymwyd y darpariaethau hynny ar gyfer Lloegr yn 2015) er bod strwythur rheoleiddio gwahanol yng

Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod yna swyddogaeth gwneud gorchmynion nad oedd ei hangen yng nghyd-destun Cymru gan ei bod yn ymwneud â chymeradwyo gweithredoedd corff anllywodraethol nad oedd yn bodoli yng Nghymru.

Mae'r fanyleb, i bob pwrpas, yn rhestr hir o gymwysterau manwl iawn a meini prawf gradd. Mae o natur dechnegol ac mae ei ddatblygiad yn dibynnu ar wybodaeth arbenigol am y sector. Mae cymwysterau'n symud yn gyflym a gall yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rhestr newid yn aml.

Mae hwn yn weithred weinyddol dechnegol a manwl gan y Bwrdd Gweithredol y mae angen ei diweddaru'n gyflym yn aml er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn gyfredol. Mae beichiau gweithdrefnol ychwanegol yn arwain at oedi i'r broses gwblhau/diweddaru. Nid yw hynny er budd gorau prentisiaid.

Nid wyf o'r farn ei bod arfer gweinyddu da i gynnal proses ddiangen o feichus sy'n atal ystwythder ac sy'n gosod rhwystrau i sicrhau bod y system brentisiaethau yn ymateb i anghenion Cymru, yn cael ei chadw’n gyfoes ac yn addas i'r diben bob amser.

**Argymhelliad 22. Os yw’n cadw’r pŵer presennol yn adran 128(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 drwy adran 135 o’r Bil yn rhywbeth dymunol ac nid yn hanfodol i weithrediad y Bil, dylid diwygio’r Bil i’r perwyl bod y pŵer yn adran 128(2) o Ddeddf 1998 yn cael ei ddiddymu, yn hytrach na’i ehangu.**

**Rwy’n nodi’r argymhelliad hwn**, er fy mod yn archwilio gwelliant mewn ymateb i argymhelliad 34 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.

# Eitem 2.4

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 4**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg

Dyddiad | Date: 31 Mawrth 2022

Pwnc | Subject: Addysg yn y cartref

Annwyl Jeremy,

A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth ar addysg yn y cartref, gan gynnwys amserlen ar gyfer pryd yr ydych yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth hon gael ei hystyried gan y Senedd.

Rydym yn ymwybodol bod hwn wedi bod yn fater parhaus, a galwodd y Comisiynydd Plant am ddeddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â'r mater. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Plant 2020-21, deallwn fod Llywodraeth Cymru 'yn bwriadu defnyddio ei phwerau o dan is-ddeddfwriaeth i roi ar waith y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt o'r blaen yn 2019 a 2020, yn amodol ar ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn derfynol.' Byddai'n ddefnyddiol cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar hyn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.



Jayne Bryant AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 5**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Llinell cyfeiriad 5

Dyddiad | Date: 31 Mawrth 2022

Pwnc | Subject: Adolygiad o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Annwyl Lee,

Deallaf o drafodaethau anffurfiol gyda'r Gweinidog Addysg mai chi sy'n gyfrifol am yr adolygiad parhaus o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Nodwn fod Datganiad y Cabinet o fis Awst 2020 wedi ehangu cwmpas gwreiddiol yr adolygiad o ddysgwyr ôl-16, i gynnwys y grŵp oedran 4-16, ac i ystyried y trothwy milltiredd presennol. Dywedodd y datganiad mai'r nod oedd cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd mis Mawrth 2021, ond y gallai hyn gael ei ohirio gan y pandemig. Felly, byddem yn gwerthfawrogi unrhyw ddiweddariad ar yr adolygiad hwn, ac yn enwedig erbyn pryd yr ydych yn disgwyl adrodd ar y canfyddiadau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, y gwn ei fod yn rhannu diddordeb yn y mater hwn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Jayne Bryant AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Eitem 2.6

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 6**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

4 Mawrth 2022

Annwyl Jayne,

Yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Gyllideb Ddrafft ar 13 Ionawr, cytunais i ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth sydd ar gael gennym ar hyn o bryd mewn perthynas â gwariant y GIG ar blant a phobl ifanc. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn ymwneud â gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau GIG Cymru, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wariant ar blant o Gymru sy'n cael eu trin yn Lloegr.

Mae'r wybodaeth yn cynnwys dwy ffynhonnell:

- Ffurflenni Costau GIG Cymru sy'n manylu ar gyfanswm y costau arbenigol ar gyfer gwasanaethau pediatrig (meddygaeth bediatrig, llawdriniaeth bediatrig, seiciatreg plant a phobl ifanc a'r holl wasanaethau cymunedol pediatrig).

- Yn ogystal â hynny, ffurflenni Costau Ar Lefel Cleifion sy'n manylu ar gostau unrhyw gleifion dan 18 oed a nodwyd o unrhyw arbenigeddau eraill sy'n cael eu trin mewn lleoliadau gofal cleifion a dderbynnir, lleoliadau cleifion allanol neu adrannau achosion brys.

Mae'r data costau sydd ar gael yn cynnwys gwasanaethau mewn ysbytai a rhai gwasanaethau cymunedol penodol i blant a phobl ifanc yn unig. Nid oes data costau sy'n gysylltiedig ag oedran ar gael ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, lle byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ofal iechyd i blant a phobl ifanc gael ei ddarparu. Byddai hyn yn cynnwys ymgyrchoedd imiwneiddio plant nad oes data costau ar wahân ar gael ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Gwyddom fod problemau hefyd gydag ansawdd y data costau sydd ar gael gennym, yn enwedig o ran llenwi'r maes dangosydd oedran, felly'r gwariant a nodwyd o ddata costau ar lefel cleifion fydd y lefel isaf ar gyfer y gwasanaethau hyn. Caiff yr holl gostau eu hymgorffori'n llawn ac felly maent yn cynnwys costau gwasanaethau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ogystal â chostau ystadau a gorbenion eraill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Ceir crynodeb o’r costau ar gyfer y tair blynedd diwethaf y mae gwybodaeth ar gael ar eu cyfer isod:

| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Arbenigedd/Is-arbenigedd | £000 | £000 | £000 |
| NICU a SCBU | £ 46,694 | £ 49,974 | £ 53,365 |
| PICU a PHDU | £ 6,954 | £ 7,207 | £ 7,672 |
| Meddygaeth Bediatrig | £ 121,278 | £ 133,141 | £ 153,430 |
| Llawdriniaeth Bediatrig | £ 6,868 | £ 7,021 | £ 6,748 |
| Seiciatreg Plant a Phobl Ifanc | £ 46,024 | £ 56,805 | £ 62,742 |
| Gwasanaethau Meddygol Pediatrig | £ 15,710 | £ 17,503 | £ 17,787 |
| Rhaglenni Cymunedol Pediatrig | £ 2,802 | £ 1,899 | £ 2,317 |
| Gwasanaethau Danfon Cyffuriau i'r Cartref - Pediatrig | £ 4,683 | £ 2,640 | £ 7,917 |
| Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd | £ 38,760 | £ 41,863 | £ 45,183 |
| Gwasanaethau Nyrsio mewn Ysgolion | £ 13,638 | £ 14,258 | £ 14,847 |
| Gweithwyr Iechyd Teulu ac Amddiffyn Plant | £ 7,195 | £ 8,861 | £ 10,876 |
| Cyfanswm ar gyfer arbenigeddau plant | £ 310,605 | £ 341,172 | £ 382,884 |
| Trin <18 mewn arbenigeddau eraill | £ 95,321 | £ 92,856 | £ 100,524 |
| Cyfanswm y gwariant ar <18 | £ 405,926 | £ 434,028 | £ 483,407 |
| Cyfanswm y gwariant ar bob oedran | 4,345,095 | 4,512,359 | 5,089,899 |
| Canran y gwariant ar <18 | 9.3% | 9.6% | 9.5% |

Mae’r gwariant a nodwyd ar blant yn cyfrif am ychydig o dan 10% o gyfanswm gwariant y GIG ar y gwasanaethau y mae data costau yn bodoli ar eu cyfer. Mae costau gwasanaethau gofal sylfaenol nad oes data ar gael ar eu cyfer yn cyfrif am oddeutu traean o gyfanswm gwariant y GIG.

Byddwn yn hapus i roi diweddariadau pellach ar wariant y GIG yn flynyddol fel rhan o’n tystiolaeth o’r gyllideb.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 7**

**At the meeting on the 24 March, the headteacher unions agreed to provide a written response to the questions that were unasked.**

**Response from NAHT received on 6 April:**

- To what extent is a lack of appropriate education, awareness and understanding a factor in some young people's unhealthy attitudes towards issues associated with relationships and sexuality?

There could always be more of this and all opportunities to raise awareness etc will improve things. However, I'm not sure that this is the main contributory factor in regard to unhealthy attitudes. As we said in the evidence it's far more to do with societal attitudes. Schools are just a mirror for the wider community

- How might the teaching of Relationships and Sexuality Education under the new Curriculum for Wales help both prevent young people sexually harassing others and protect those who might experience it?

This is important. As part of the preparation for CfW schools will be considering how they deliver the four purposes. RSE will be key to this and will provide time within the curriculum for these issues to be discussed. It will be important that high-quality RSE resources are developed and shared. There have been some good examples of this in the past, e.g "the good drug dealer" resource that raises awareness about substance misuse. However, I'd still say that although formal RSE delivery is important it's all the informal conversations that take place as part of good quality pastoral care that probably makes more of a difference. Also as we said in evidence, good quality pastoral care is expensive!

- How well placed are schools to deliver RSE in line with the statutory RSE Code from this September in primary schools and roll it out in secondary schools from September 2023? Are school staff receiving enough professional learning in this regard?

I think schools are going to be in a position to deliver RSE and there is awareness in primary and secondary schools of what needs to be done. But I think we need to note that this is yet another area of provision that we are preparing to implement alongside ALN, CfW etc. I'd be concerned that we don't maximise the opportunity with RSE because there's so much going on. I'd also say schools need more professional learning, It seems there's some work being undertaken by consortia but my RSE lead says because of the pandemic not has happened lately.

- The Children's Commissioner emphasised the importance of having an RSE lead in each school and for this to be in place by this September. What proportion of schools would you estimate have a designated RSE lead in place by now?

**CYPE(6)-09-22 - Paper to note 8**

**At the meeting on the 24 March, the headteacher unions agreed to provide a written response to the questions that were unasked.**

**Response from ASCL received on 12 April:**

• To what extent is a lack of appropriate education, awareness and understanding a factor in some young people's unhealthy attitudes towards issues associated with relationships and sexuality?

It is a factor but not the total cause. Issues are broad and societal and are not limited to young people.

• How might the teaching of Relationships and Sexuality Education under the new Curriculum for Wales help both prevent young people sexually harassing others and protect those who might experience it?

The RSE curriculum needs sufficient delivery time and space, to be well planned and delivered by trained and confident staff and other specialist professionals. Students need to be taught how to identify and respond to abuse, on and offline.

• How well placed are schools to deliver RSE in line with the statutory RSE Code from this September in primary schools and roll it out in secondary schools from September 2023? Are school staff receiving enough professional learning in this regard?

The picture is uneven.

• The Children's Commissioner emphasised the importance of having an RSE lead in each school and for this to be in place by this September. What proportion of schools would you estimate have a designated RSE lead in place by now?

Uncertain.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 9**

**At the meeting on the 24 March, Professor EJ Renold agreed to provide a written response to the questions that were unasked.**

**Response received on 12 April:**

Can you briefly explain what effective Relationships and Sexuality Education will look like if it is delivered as you believe it should?

There isn't a brief response to this, other than to re-state that a whole school approach to RSE is the single most important factor in building high quality RSE. The new guidance is very clear on what constitutes high quality RSE and their six underpinning principles, if implemented, have the potential to provide effective RSE provision. However, please also see written response regarding the need for robust and pan Wales professional learning opportunities and a dedicated RSE policy/practice/research network (SRE expert panel's recommendations in this area have yet to be implemented). Building capacity will take time, resources and a clear strategy for implementation. The following recommendations are yet to be acted upon (https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales.pdf, page 23-24)

Key Area 3: Training and Standards

Recommendation 6: Welsh Government to establish a SRE professional development pathway, differentiated for stage of education, to be incorporated into ITE and professional learning courses.

This pathway would provide an opportunity to further progress their professional development and specialise in SRE, allowing scope for the workforce to achieve a Masters level SRE qualification.

Recommendation 7: All schools should have a specialist trained SRE lead with access to resources and guidance to co-ordinate a rights and gender-equity based curriculum. Hours for delivery across the key stages should be equitable with other curriculum subjects. This role should involve embedding SRE in a whole school approach.

Recommendation 9: For Estyn to build on recent changes to the inspection framework to consider the inspection of SRE as part of aligning new inspection arrangements to the new curriculum.

Recommendation 10: Welsh Government to consider establishing a SRE excellence mark to highlight exemplary whole school approaches to gender equality and equity and SRE.

Key Area 4: Research and Support

Recommendation 11: Welsh Government to establish a SRE Hwb Zone to support high quality SRE in school and to service a SRE research, practice and training network, aimed at facilitating provision of up to date research and training opportunities and creation of a Wales SRE community of practice.

How confident are you that this will happen?

Statutory RSE for primary schools begins in 2022. The current guidance is not sufficient to support schools to build and develop their RSE curriculum. We (with McGeeney and Coll) have been delivering Professional Learning (see CRUSH resource) for over 4 years. However, we don’t know of any other sustained professional learning opportunities in Wales that specifically supports schools to prepare for the new statutory RSE (beyond topic focused training). We are also still waiting for Welsh Government to establish a pan Wales RSE network.

What potential barriers are there to the successful implementation of Relationships and Sexuality Education under the new Curriculum for Wales?

Key potential barriers include dedicated time for schools to plan, prepare and deliver the new RSE curriculum,; enduring impact of COVID pandemic; pan-Wales professional learning opportunities for all RSE leads/working groups in schools; research-based resources that are aligned with the underpinning principles of the new curriculum for Wales (e.g. www.agendaonline.co.uk/crush), including bi-lingual resources); strategic leadership that ensures coherence of understanding and provision across local authorities and consortia.

Can you expand on your comment in your paper that this is a “curriculum panic zone”?

In our professional learning programme (www.agendaonline.co.uk/crush) we facilitate an activity called, ‘comfort, stretch, panic’ to explore teacher confidence levels in key areas of the curriculum. Sex, gender sexuality; violence, safety and support, and sexual health and well-being are often in the stretch and panic zones.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 10**

**At the meeting on the 24 March, Parentkind agreed to provide a written response to the questions that were unasked.**

**Response received on 11 April:**

To what extent is a lack of appropriate education, awareness and understanding a factor in some young people's unhealthy attitudes towards issues associated with relationships and sexuality?

There are certainly gaps in what schools teach and support young people with, and the lived experience of young people represented in our research findings. For example, while 70% of parents reported that their child's school had an inclusive environment, this leaves 30% who don't feel that schools are doing enough to allow young people to feel supported and nurtured.

Similarly, Parentkind research results point to a mean age of 11 when it comes to experiencing pressure to constantly engage with social media. This highlights the eye-opening fact that there will be a sizeable chunk of children younger than 11 who feel a pressure to engage in platforms that, in most cases, simply were not designed with their safety and healthy development in mind. What this means, is that a balanced view of social media and the impact it can have would need to be a feature of education around the age of 11, if not before.

How might the teaching of Relationships and Sexuality Education under the new Curriculum for Wales improve things?

Parentkind welcomes the work done around Curriculum for Wales, and in particular the commitments made toward parental participation and consultation. In reality, however, a multi-agency and cross-departmental approach needs to be taken. When it comes to relationships and sexuality, of course education has a key role to play, but that work must be supported by actions and interventions in healthcare provision and the media landscape. Quite simply, we mustn't expect teachers to be able to solve issues that reflect how we live as a society at large. Parentkind, of course, is not best placed to advise in those spaces, but we would point to our recommendation at committee to orchestrate a communications campaign focussing on sexual harassment and abuse taking place online.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 11**

**At the meeting on 10 March, the WLGA agreed to provide an update to the Committee on any discussions that has taken place with the Local Government Association in England regarding the Online Safety and Harms Bill.**

**Response received on 5 April:**

WLGA circulated their views back in November 2021 to the LGA which led on this area. We had a particular interest as it covered abuse of candidates/elected politicians as well as online harms re. children and vulnerable people too. The LGA has produced some resources: Must Know: Online harms | Local Government Association.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 12**

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

11 Ebrill 2022

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 25 Mawrth 2022, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, sydd ar ddod, cyn dadl y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 13 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn yr hydref. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhelir gyda'r cyhoedd, a gweithio gyda'r Senedd Ieuenctid.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

*Digwyddiad i randdeiliaid*

Ar ôl y ddwy flynedd ddiwethaf o gyfyngiadau, mae'r Pwyllgor yn falch iawn o allu dychwelyd at gynnal digwyddiad wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid i glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion â diddordeb ar y cynigion disgwyliedig ynghylch y gyllideb ddrafft, yn ogystal â dull Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau.

Mae gwaith ar draws pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer craffu effeithiol ac felly hoffwn wahodd Cadeiryddion Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad a gynhelir fore Mercher 15 Mehefin yn Sefydliad Glowyr Llanhiledd, Abertyleri, Blaenau Gwent. Os oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn dod i'r digwyddiad, cysylltwch â'r tîm clercio yn seneddcyllid@senedd.cymru erbyn 1 Mehefin 2022.

*Grwpiau ffocws gyda'r cyhoedd*

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y Gyllideb Ddrafft. Cynhaliodd y tîm ymarfer tebyg y llynedd a bydd yn hwyluso sesiynau ffocws dros dymor yr haf, gan ofyn yr un cwestiynau neu gwestiynau tebyg i'r rhai a ofynnwyd y llynedd. Nod y gwaith hwn yw gwella dealltwriaeth y cyhoedd o broses Cyllideb Cymru a'u hymgysylltiad â hi. Yn ogystal, ar gyfer y tymor hwy, rydym yn gobeithio llunio astudiaeth hydredol a fydd yn galluogi'r Pwyllgor i fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr trwy sefydliadau partner tebyg i gael yr un ddemograffeg â'r llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol.

Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

*Senedd Ieuenctid*

I ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio gyda'r Senedd Ieuenctid. Bydd Aelodau'r Senedd Ieuenctid yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn eu sesiwn grŵp ffocws eu hunain cyn yr haf. Y gobaith yw mai hyn fydd y cyfle gorau i Aelodau'r Senedd Ieuenctid ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru.

### Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 13 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar

gyfer 2023-24. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio'r ddadl hon ac yn cyfrannu ati. Credwn mai'r ddadl hon fydd y cyfle gorau i Aelodau efallai ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn iddi lunio'r Gyllideb Ddrafft yn yr hydref.

## Dull o graffu ar y Gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at Gadeiryddion cyn hir ynglŷn â dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen. Swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw cynnal gwaith craffu ariannol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, ond dylai gwaith craffu ariannol fod yn rhan o'r gwaith craffu y mae pob pwyllgor yn ei wneud. Felly, byddwn yn croesawu awgrymiadau gan Gadeiryddion i edrych ar ffyrdd o gydweithio er mwyn sicrhau'r gwaith craffu ariannol mwyaf effeithiol ar Lywodraeth Cymru.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 13**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc acAddysg
—
## Children, Young People and Education Committee

Jeremy Miles AS
Y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg

Dyddiad | Date: 7 April 2022

Pwnc | Subject: Absenoldeb disgyblion

Annwyl Jeremy

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ar 31 Mawrth. Rydym wedi cytuno i gynnal amrywiaeth o waith ar wahanol faterion, gan gynnwys absenoldeb disgyblion. Byddwn yn cynnal ymchwiliad byr a phenodol i hyn dros dymor yr haf.

Rydym yn gwybod – yn sgil eich datganiad fis Hydref diwethaf – bod hwn yn destun pryder i'r Llywodraeth, a'ch bod wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i gynnal adolygiad cynhwysfawr o batrymau presenoldeb, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol. Rydym yn deall mai'r bwriad oedd i'r gwaith hwn olygu gweithio gyda rhanddeiliaid addysg er mwyn casglu gwybodaeth am y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, a pha fesurau/ymyriadau sydd eu hangen i ailennyn diddordeb dysgwyr yn well.

Er mwyn helpu i lywio ein dull o weithredu, dyma ofyn am ddiweddariad ar yr adolygiad hwn, unrhyw ganfyddiadau cychwynnol a beth yw'r camau nesaf ar gyfer datblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol ar y mater pwysig hwn. Byddwn yn ystyried ein cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad hwn ddechrau mis Mai, felly byddai'n ddefnyddiol petai ymateb yn ein cyrraedd erbyn 29 Ebrill, os yw'n bosibl.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 14

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

5 Ebrill 2022

Annwyl Jayne, Jenny a John

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2021 at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y camau nesaf ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Mae'r dystiolaeth a glywsom eisoes yn dangos yn glir natur drawsbynciol y penderfynyddion o ran anghydraddoldebau iechyd meddwl, a'r atebion posibl. Roeddwn yn falch bod aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi gallu cymryd rhan yn rhai o'r grwpiau ffocws a drefnwyd gennym ym mis Chwefror. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda chi a'ch Pwyllgorau i nodi meysydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr a chyfleoedd i gydweithio.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl: y wybodaeth ddiweddaraf

### Y gwaith hyd yma

Lansiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl ym mis Ionawr 2022. Roedd y cylch gorchwyl yn eang iawn, yn ceisio nodi pa grwpiau oedd fwyaf tebygol o brofi anghydraddoldebau iechyd meddwl, pa rwystrau y maent yn eu hwynebu, a yw polisi Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i gydnabod anghenion y grwpiau hyn a mynd i'r afael â hwy, a beth arall sydd angen ei wneud.

Hyd yma, rydym wedi casglu tystiolaeth drwy:

- Lansio galwad agored am dystiolaeth ysgrifenedig, lle daeth dros 90 o ymatebion i law. Mae crynodeb o'r dystiolaeth ysgrifenedig a baratowyd i'w ddefnyddio'n fewnol gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i atodi'n gyfrinachol.
- Cynnal ymgyrch cyfathrebu digidol i hyrwyddo'r ymchwiliad ac annog pobl i rannu eu safbwyntiau.
- Gweithio gyda 12 o sefydliadau partner i drefnu cyfres o 13 o grwpiau ffocws a dau gyfweliad manwl gyda chyfranogwyr ledled Cymru. Roedd cyfanswm o 77 o bobl o bob cwr o Gymru wedi cymryd rhan. Hwyluswyd y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau gan Dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, a lle bo'n bosibl, roedd aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn bresennol. Mae adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau wedi'i gyhoeddi.
- Cynnal sesiynau tystiolaeth lafar ar 24 Mawrth gyda'r Ganolfan Iechyd Meddwl, y Sefydliad Iechyd Meddwl, Comisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

### Y themâu sy'n dod i'r amlwg

Ar ôl ystyried y dystiolaeth rydym wedi'i chasglu hyd yma, rydym bellach yn bwriadu trafod pedair thema allweddol sy'n dod i'r amlwg mewn mwy o fanylder:

1. **Iechyd meddwl a chymdeithas**: penderfynyddion ehangach iechyd meddwl, a rôl cymdeithas a chymunedau wrth hybu a chefnogi iechyd meddwl.
2. **Atebion cymunedol**: rôl cymunedau wrth hybu a chefnogi iechyd meddwl, a phresgripsiynu cymdeithasol.
3. **Effaith anghydraddoldebau iechyd meddwl ar bobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol**: rydym wedi clywed pryderon sylweddol ynghylch y grŵp hwn yn y dystiolaeth rydym wedi'i

chasglu hyd yma. Mae hwn hefyd yn grŵp amrywiol, a gall llawer ohonynt hefyd brofi anghydraddoldebau sy'n ymwneud â'u nodweddion eraill. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall rhai o'r rhwystrau a brofir gan y grŵp hwn—fel diffyg gwasanaethau cydgysylltiedig, ymwybyddiaeth a hyfforddiant cyfyngedig, a chysgodi diagnostig—gael eu profi gan grwpiau a chymunedau eraill hefyd. Felly, bydd edrych ar brofiad pobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol hefyd yn ein helpu i archwilio themâu ehangach sy'n effeithio ar grwpiau eraill.

4. **Rôl y gweithlu gofal iechyd a'r gweithlu ehangach**: gan gynnwys ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a chydraddoldeb ar draws y gweithlu cyfan, hyfforddiant, gweithio cydgysylltiedig o fewn y gwasanaeth iechyd a chyda sefydliadau eraill, a rôl meddygon teulu fel 'drws ffrynt' i wasanaethau iechyd meddwl.

Rydym yn bwriadu casglu tystiolaeth ar y themâu hyn drwy amrywiaeth o fecanweithiau, gan gynnwys tystiolaeth lafar ffurfiol, ymweliadau a gweithgarwch ymgysylltu pellach. Bydd hyn yn ein helpu i glywed amrywiaeth eang o leisiau, gan gynnwys pobl ag arbenigedd a phrofiad byw a phroffesiynol o'r materion yr ydym yn eu hystyried.

## Llywodraeth Cymru

Byddwn yn cynnal sesiwn tystiolaeth lafar yn yr hydref gyda Llywodraeth Cymru. Yn ystod y sesiwn hon byddwn yn defnyddio'r holl dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn ystod ein hymchwiliad, gan gynnwys materion a godwyd yn ein grwpiau ffocws cychwynnol a thystiolaeth ysgrifenedig, yn ogystal â'r dystiolaeth a gasglwn yn ystod tymor yr haf mewn perthynas â'n pedair thema sy'n dod i'r amlwg.

Fel y cytunwyd yn flaenorol, byddwn hefyd yn cydgysylltu â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ofyn am ddiweddariad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar y cynnydd a wnaed o ran prif argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Bumed Senedd mewn perthynas ag iechyd meddwl.

## Grŵp cynghori

Er mwyn sicrhau bod profiad byw wrth wraidd ein hymchwiliad, byddwn yn sefydlu grŵp cynghori ar-lein. Bydd y grŵp yn cynnwys 10 i 15 o bobl sydd â phrofiad byw o anghydraddoldebau iechyd meddwl, a gofynnir iddynt ystyried pynciau trafod ar gerrig milltir allweddol yn ystod yr ymchwiliad a rhoi crynodeb o'u safbwyntiau inni. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, cyn ac ar ôl y sesiwn dystiolaeth Weinidogol, cyn inni gwblhau ein hadroddiad terfynol, a chyn unrhyw ddadl ar ein hadroddiad yn y Cyfarfod Llawn.

Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i nodi a chefnogi aelodau'r grwpiau cynghori, gan dynnu lle bo'n bosibl o'r gronfa o bobl a gymerodd ran yn ein grwpiau ffocws cychwynnol, ac ystyried nodweddion megis lleoliad daearyddol, rhywedd, oedran, ac aelodaeth o gymunedau penodol fel niwroamrywiaeth, lleiafrifoedd ethnig, nam ar y synhwyrau, LHDTC+ a gofalwyr di-dâl.

Gan fod Senedd Ieuenctid Cymru wedi nodi 'Ein hiechyd meddwl a lles' fel un o'i blaenoriaethau, rydym hefyd yn bwriadu chwilio am gyfleoedd i weithio gydag Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru fel y bo'n briodol.

Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Anghydraddoldebau iechyd meddwl

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 24 Mawrth 2022
Health and Social Care Committee | 24 March 2022

**Cyfeirnod:**RS22/2284

## Cyflwyniad

Yn ôl y **Ganolfan Iechyd Meddwl**, mae anghydraddoldeb iechyd meddwl yn rhwystr triphlyg sy'n effeithio ar nifer fawr o bobl o wahanol rannau o'r boblogaeth:

i. Mae rhai grwpiau o bobl yn **wynebu risg anghymesur o iechyd meddwl gwael.** Yn aml, mae hyn yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau yn y gymdeithas.

ii. Gall grwpiau sydd â lefelau arbennig o uchel o iechyd meddwl gwael **wynebu'r anawsterau mwyaf o ran mynediad at wasanaethau.**

iii. Pan fyddan nhw yn cael cefnogaeth, mae eu **profiadau a'u canlyniadau yn aml yn waeth.**

Yn ystod **cam cyntaf y broses o gasglu tystiolaeth**, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol alwad agored am dystiolaeth rhwng 10 Ionawr a 24 Chwefror 2022. Cawsom 91 o ymatebion ysgrifenedig gan ystod eang o unigolion a sefydliadau.

Cynhaliodd ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws hefyd i gasglu profiadau byw grwpiau amrywiol o bobl. Mae adroddiad ar y gweithgarwch ymgysylltu hwn wedi'i gynnwys gyda'r papurau ar gyfer cyfarfod heddiw. Mae llawer o'r materion a amlygwyd yn adlewyrchu'r hyn y mae rhanddeiliaid yn ei ddweud wrthym yn eu hymatebion i'r ymgynghoriad.

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

### Pwy sydd mewn mwyaf o risg?

Mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at ystod o grwpiau a all fod mewn risg arbennig o salwch meddwl. Maent yn cynnwys:

- Pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig
- Cymunedau lleiafrifoedd ethnig/cymunedau hiliedig (cymunedau sy'n destun anghydraddoldeb hiliol), gan gynnwys cymunedau sipsiwn a theithwyr
- Pobl hŷn
- Plant a phobl ifanc (fel grŵp eang, cyffredinol a hefyd mewn perthynas â ffactorau fel profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), profiad o ofal, gwahardd o'r ysgol, a nodweddion gwarchodedig)
- Pobl ag awtistiaeth/cyflyrau niwrowahanol eraill gan gynnwys ADHD
- Pobl ag anabledd dysgu
- Pobl â nam/colled ar y synhwyrau
- Pobl LHDTQ+
- Merched beichiog/mamau newydd (y cyfnod 'amenedigol')
- Pobl anabl
- Pobl sy'n byw gyda chyflwr iechyd cronig
- Gofalwyr (gan gynnwys y rhai sy'n gofalu am rywun â salwch cronig/terfynol, a'r rhai sy'n cefnogi aelod o'r teulu ag anawsterau iechyd meddwl)
- Pobl ag anawsterau cyfathrebu a lleferydd ac iaith
- Pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau
- Pobl ag afiechyd meddwl difrifol
- Merched fel grŵp eang
- Dynion, gan gynnwys dynion ifanc, dynion canol oed, dynion di-waith
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Pobl sydd wedi profi trawma, gan gynnwys trais rhywiol/cam-drin domestig
- Pobl ddigartref
- Troseddwyr
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig
- Cymunedau amaethyddiaeth a physgota

- Gweithlu iechyd a gofal
- Y gweithlu addysg

Un pwynt allweddol yw bod y **berthynas rhwng iechyd meddwl ac anghydraddoldeb yn gymhleth**; mae'r ffactorau dan sylw yn cydblethu a gallant weithio mewn dau gyfeiriad. Er enghraifft, gall tlodi fod yn achos ac yn ganlyniad i salwch meddwl (am ragor o wybodaeth am hyn gweler erthygl Ymchwil y Senedd: **Tlodi ac iechyd meddwl**).

I lawer o'r grwpiau a restrir, mae'r **ffactorau cyffredin** sy'n cyfrannu at iechyd meddwl gwaeth yn cynnwys: effaith gwahaniaethu ac ofn; teimladau o gywilydd/bychanu; ansicrwydd incwm; unigrwydd ac arwahanrwydd; trawma (e.e. yn sgil cam-drin, trais, ACEs (profiadau plentyndod andwyol), a; diffyg llais, dewis a rheolaeth.

Mae yna farn glir, yn ogystal â nodi 'pwy', bod yn rhaid canolbwyntio hefyd ar 'pam' - yr amgylchiadau sy'n achosi anghydraddoldeb iechyd meddwl. Dywedodd y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Chymdeithas ym Mhrifysgol Bangor wrthym fod anghydraddoldeb yn cael effaith ar gymdeithas gyfan, ac nid dim ond ar grwpiau difreintiedig arwahanol. Dywedodd fod pob sector o gymdeithas yn profi buddion diriaethol o ostyngiadau mewn anghydraddoldeb (MHI43).

Cydnabuwyd yn eang fod **pandemig covid-19** wedi gwneud yr anghydraddoldebau presennol yn waeth. Mae wedi cael effaith andwyol ar iechyd meddwl y boblogaeth, ac yn enwedig y bobl hynny sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldeb iechyd meddwl.

### Rhwystrau rhag cael gafael ar gymorth iechyd meddwl effeithiol

Mae'r ymatebion yn amlygu'r rhwystr canlynol rhag ceisio a/neu dderbyn cymorth priodol ac effeithiol:

- Stigma Ofn cael eu barnu, colli cymorth presennol neu gael eu cosbi (e.e. plant yn cael eu rhoi mewn gofal)
- Gwahaniaethu (e.e. gwahaniaethu ar sail oed)
- Rhwystrau diwylliannol, materion iaith
- Diffyg ymddiriedaeth mewn gwasanaethau Profiadau negyddol blaenorol, teimlo nad oes neb yn gwrando arnynt/yn cael eu diystyru
- Ddim yn gwybod pa help sydd ar gael na sut i gael gafael arno
- Diffyg capasiti o fewn gwasanaethau presennol, amseroedd aros hir a throthwyon uchel ar gyfer mynediad

- Bylchau/amrywioldeb yn y ddarpariaeth, gan gynnwys diffyg gwasanaethau arbenigol
- Nid yw gwasanaethau'n ddigon hyblyg, mae yna ddull 'un maint i bawb'
- Cael eich eithrio o wasanaethau, oherwydd ffocws ar 'brif' ddiagnosis unigolyn
- Diffyg eglurder ynghylch prosesau atgyfeirio/prosesau atgyfeirio sy'n 'cyfyngu'
- Materion daearyddol/gwledig
- Allgáu digidol

Er bod rhai o'r materion a nodwyd gan randdeiliaid yn fwy perthnasol i grwpiau penodol, mae llawer ohonynt yn themâu cyffredin sy'n berthnasol yn ehangach.

## Y prif themâu

### Pobl yn ei chael hi'n anodd cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion

Mae'r ymatebion yn disgrifio **diffyg darpariaeth** ar draws y sbectrwm angen, o ymyrraeth gynnar i wasanaethau arbenigol ac argyfwng. Mae amseroedd aros hir yn broblem sylweddol. Mae rhanddeiliaid yn amlygu bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol (e.e. pobl hŷn). Mae angen i wasanaethau fod yn fwy **hygyrch** (e.e. ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrau), ac yn well am **adnabod a diwallu anghenion** cymunedau lleiafrifoedd ethnig er enghraifft. Mae diffyg gwasanaethau ar gael yn y **Gymraeg**. Mae **cyfyngiad amser** yn aml gyda chymorth y GIG (e.e. cynnig o chwe sesiwn cwnsela yn unig). Mae diffyg **cymorth dilynol/parhaus**.

Mae rhai rhanddeiliaid yn disgrifio bod pobl yn **'bownsio' rhwng gwasanaethau**, gan gynnwys rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd lle mae unigolyn yn rhy sâl i gael gofal sylfaenol/ddim yn ddigon sâl i gael gofal eilaidd (MHI92). Mae'n bosibl na fydd pobl yn gallu cael mynediad at gymorth y mae dirfawr ei angen oherwydd nad ydynt yn ffitio i mewn i drefniadau gwasanaeth presennol. Mae Llamau yn rhoi enghraifft – dywed bod yn rhaid i chi fynd i grŵp gorbryder hyd yn oed os nad ydych yn ymddiried mewn pobl a'ch bod yn meddwl am hunanladdiad, cyn y gellir cynnig unrhyw beth arall" (MHI56).

Yn aml nid yw pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael na sut i'w gael. Mae angen gwella **cyfeirio at wasanaethau a sicrhau gwybodaeth hygyrch/cynhwysol** am wasanaethau. Er mwyn cyrraedd ystod ehangach o bobl, mae Gofal a Thrwsio Cymru yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau fel Dŵr Cymru i gynnwys gwybodaeth am gymorth iechyd meddwl yn eu deunydd darllen i gwsmeriaid (MHI39).

## Mae gennym 'fodel meddygol' ar gyfer iechyd meddwl sydd wedi dyddio erbyn hyn ac sy'n methu â mynd i'r afael ag anghenion ehangach

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn tueddu i fod yn seiliedig ar **fodel meddygol o salwch**. Mae'r 'diagnosis' felly'n arwain y cymorth/triniaeth a ddarperir, ond mae'r anghenion dynol sy'n sail i anawsterau iechyd meddwl unigolyn yn aml yn cael eu hanwybyddu neu wedi eu tan-archwilio.

Nid yw'r polisi a'r arfer presennol yn adlewyrchu'n ddigonol **dealltwriaeth sy'n seiliedig ar drawma** o anghenion pobl. Dywed Seicolegwyr dros Newid Cymdeithasol fod hyn yn parhau annhegwch iechyd meddwl gan ei fod yn cuddio'r atebion angenrheidiol o'r golwg (MHI36). Mae llawer o randdeiliaid yn cytuno bod angen dull wedi'i lywio gan drawma arnom ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus.

> Noder: Mae '**trawma**' yn deillio o ddigwyddiad, cyfres o ddigwyddiadau, neu gyfres o amgylchiadau y mae unigolyn yn eu profi fel rhai niweidiol yn gorfforol neu'n emosiynol neu'n bygwth bywyd, ac sy'n cael effeithiau andwyol parhaol ar weithrediad a lles meddyliol neu gorfforol yr unigolyn.
>
> Mae 'dulliau wedi'u llywio gan drawma' yn ffyrdd o gefnogi pobl sy'n cydnabod effaith trawma o'r gorffennol neu sy'n mynd rhagddo, a'r anghenion penodol a all fod gan berson o ganlyniad i hynny.
>
> Mae rhanddeiliaid eisoes wedi disgrifio effaith y pandemig fel 'trawma ar lefel y boblogaeth'.

Mae angen i wasanaethau **ganolbwyntio ar yr unigolyn**, gyda chymorth wedi'i gynllunio o amgylch anghenion pob unigolyn, yn hytrach na ffitio pobl i mewn i ystod gyfyngedig o wasanaethau disgwyliedig (MHI61). Mae rhanddeiliaid yn disgrifio nodweddion allweddol dull darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn, gan gynnwys:

- mwy o **hyblygrwydd** (o ran sut y ceir mynediad i wasanaethau, oriau agor ac ati);
- maen nhw'n **cyd-gynhyrchu** (wedi'u cynllunio a'u datblygu gyda defnyddwyr gwasanaeth a phobl â phrofiad uniongyrchol);
- mae agwedd **'dim drws anghywir'** o ran cael mynediad at gymorth;

- mae'r gwasanaethau yn **gydgysylltiedig** ac yn cyfathrebu'n effeithiol (e.e. fel nad oes rhaid i bobl ailadrodd eu stori sawl gwaith).

Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yn rhoi enghraifft o sut y gallai dull mwy cyfannol o ddiwallu anghenion pobl weithio (MHI54):

> *Advice services should be co-located in mental health settings, so that people with practical problems, such as financial and housing concerns, can receive the right support at the right time and the root cause of their problem can be dealt with appropriately.*

Un pryder allweddol a nodwyd gan nifer o ymatebwyr yw **gorddibyniaeth ar feddyginiaeth,** yn aml heb drafod therapïau siarad neu opsiynau eraill. Mae cyfyngiad o ran yr opsiynau amgen sydd ar gael hefyd yn ffactor amlwg yma. Mae Adferiad yn dweud wrthym fod cyffuriau gwrth-iselder yn cael eu rhagnodi'n eang ar gyfer problemau lle mae angen cymorth ymarferol mewn gwirionedd (e.e. materion tai, diweithdra, perthnasoedd camdriniol). Dywed, mewn rhai cymunedau difreintiedig y gwelir cyffuriau gwrth-iselder fel yr unig 'ateb' i ansawdd bywyd gwael, yn enwedig i fenywod (MHI62).

### Yn aml, gwrthodir cymorth i bobl â chyflyrau sy'n cyd-ddigwydd neu sydd â 'diagnosis deuol'

Gall hyn fod yn broblem benodol i bobl â chyflyrau niwrowahanol neu anableddau dysgu, pobl â dementia, ac i bobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

Dywed Parents Voices in Wales CIC fod problemau iechyd meddwl yn cael eu hystyried yn ganlyniad anochel i niwrowahaniaeth, ac mae atgyfeiriadau iechyd meddwl ar gyfer pobl â chyflyrau o'r fath yn aml yn cael eu gwrthod (MHI08). Mae Mencap yn cytuno y gall **canolbwyntio ar 'ddiagnosis sylfaenol' unigolyn** arwain at wrthod cymorth iechyd meddwl i bobl. Mae ymddygiad person, hyd yn oed pan fydd yn profi argyfwng iechyd meddwl, yn cael ei weld fel rhan o'i anabledd/cyflwr dysgu. (MHI32).

Mae camddefnyddio sylweddau yn aml yn symptom ac yn ganlyniad i iechyd meddwl gwael, ond gall **ffyrdd ar wahân o weithio** olygu bod cymorth ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei wrthod nes yr eir i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau. Mae'r Wallich yn dweud wrthym fod llwybrau triniaeth ar gyfer 'diagnosis deuol' (h.y. problemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau) yn bodoli ond nad ydynt yn gweithio'n effeithiol ledled Cymru (MHI60).

### Nid yw effaith iechyd meddwl byw gyda chyflwr iechyd corfforol yn cael ei chydnabod yn ddigonol

Mae hyn yn cynnwys lle nad yw cyflyrau wedi cael **diagnosis**, yn cynnwys **arosiadau hir** ar gyfer triniaeth, neu lle mae **diffyg cymorth adsefydlu**.

Dywed RNIB Cymru er bod effaith emosiynol colli golwg yn hysbys, yn ymarferol mae'n aml yn cael ei hanwybyddu. Mae triniaeth a chymorth yn canolbwyntio mwy ar yr effeithiau corfforol (MHI58). Mae Endometriosis UK yn galw ar i gymorth iechyd meddwl gael ei **gynnwys mewn llwybrau gofal** i wella mynediad i'r rhai sydd ei angen, gan gynnwys cyn diagnosis (MHI19).

Amlygwyd **effeithiau ehangach sy'n aml yn gudd** cyflyrau iechyd sydd heb gefnogaeth ddigonol. Dywed Specsavers y gall colli clyw heb ddiagnosis a/neu sydd heb ei drin amharu ar addysg, cyflogaeth a gweithgareddau cymdeithasol, gan arwain at ynysu, a salwch corfforol a meddyliol (MHI11). Mae'r ADHD Foundation yn disgrifio 'costau anweledig' ADHD heb ei reoli ar gyfer meysydd eraill gofal iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a'r system cyfiawnder troseddol (MHI01).

Mae'r pwyntiau a wnaed yn adlewyrchu'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ymchwiliad 'amseroedd aros' y Pwyllgor.

### Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ymhlith y gweithlu gofal iechyd a'r gweithlu ehangach

Mae nifer o ymatebion yn disgrifio diffyg capasiti yn y **gweithlu iechyd meddwl**. Mae problemau recriwtio a chadw yn bodoli cyn pandemig COVID-19, ond mae staff yn profi problemau gorweithio ac mae denu staff i gael eu hyfforddi ac i weithio ym maes iechyd meddwl yn heriol.

Roedd llawer o sylwadau am yr angen am fwy o **ymwybyddiaeth a hyfforddiant ymhlith staff rheng flaen**, nid yn unig ar gyfer staff iechyd meddwl/gofal iechyd, ond ar draws addysg, gwasanaethau cymdeithasol a rolau eraill sy'n wynebu'r cyhoedd. Amlygodd rhanddeiliaid amrywiaeth o faterion. Roedd diffyg dealltwriaeth am **awtistiaeth/niwroamrywiaeth** yn faes allweddol. Roedd **'bylchau' hyfforddi** yn cynnwys anghenion iechyd meddwl pobl hŷn, pobl â nam/colled synhwyraidd, anhwylderau personoliaeth, anghenion gofalwyr, effaith galar, problemau iechyd menywod, ac ymwybyddiaeth o atal hunanladdiad. Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau i gymorth iechyd meddwl effeithiol, mae angen i wasanaethau a staff fod yn **sensitif yn ddiwylliannol ac yn wybodus am drawma**, ac yn well am adnabod arwyddion o iechyd meddwl gwael ac anghenion pobl am gymorth.

**Meddygon teulu** yn aml yw'r person cyswllt cyntaf i rywun sy'n cael trafferth gyda mater iechyd meddwl, ond mae nifer o ymatebion yn awgrymu bod hwn yn grŵp proffesiynol allweddol lle mae angen gwell hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, mewn perthynas ag iechyd meddwl yn gyffredinol a hefyd **materion cydraddoldeb**. Mae cyflwyniad Heddluoedd Cymru yn dweud bod angen cynyddu hyfforddiant ar gyfer meddygon teulu gan fod gan 1 o bob 3 o bobl sy'n mynd yno broblemau iechyd meddwl cudd sy'n amlygu symptomau iechyd corfforol (MHI28). Mae'r Ganolfan Iechyd Meddwl yn amlygu bod pobl o gymunedau hiliedig yn llai tebygol o gael eu hatgyfeirio am gymorth iechyd meddwl gan eu meddyg teulu (ond yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â gwasanaethau drwy'r heddlu) (MHI80).

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at ymgynghoriad presennol Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ar **gynllun gweithlu iechyd meddwl** ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddweud bod hyn yn rhoi cyfle gwirioneddol i ailfodelu'r ddarpariaeth bresennol a chreu gwasanaethau cynaliadwy sy'n sicrhau y gall pawb yng Nghymru gael mynediad at gymorth iechyd meddwl priodol (MHI83).

### Dylid archwilio'r potensial ar gyfer mwy o atebion cymunedol, gan gynnwys cynlluniau rhagnodi cymdeithasol

Cafwyd sylwadau sylweddol am yr angen i **fuddsoddi mewn cymunedau** i hybu a chefnogi iechyd meddwl da, a meithrin gallu grwpiau gwirfoddol/cymunedol lleol i ddatblygu a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwella mynediad i hybiau cymunedol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn galw am **rôl llywodraeth leol** i gael lle cryfach mewn sgyrsiau am wella a darparu cymorth iechyd meddwl – er enghraifft, ehangu'r defnydd o barciau a mannau gwyrdd, hyrwyddo llesiant mewn gofynion cynllunio newydd, cefnogi addysg oedolion, gwella mynediad i ganolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon, neu wella cymunedau cysylltiadau ag artistiaid lleol a digwyddiadau diwylliannol (MHI55).

Mae angen **cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth cymunedol ehangach**. Dywed Platfform fod angen i ymarferwyr ystyried sut i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol (celfyddydau, diwylliant, cymuned ac ati). Er ei bod wedi bod yn anodd gwneud hyn yn ystod y pandemig, dywed Platfform fod hwn wedi bod yn 'ffactor sydd wedi'i esgeuluso' erioed (MHI79). Mae ymatebion pellach yn disgrifio'r angen i 'ddatgloi potensial' **cynlluniau presgripsiynu cymdeithasol**. Er bod cynlluniau ar waith mewn rhai rhannau o Gymru, mae yna

wahaniaethau o ran dulliau gweithredu a lefelau'r gwasanaeth sydd ar gael (MHI75).

Mae nifer sylweddol o ymatebion yn codi mater ynghylch **cyllid tymor byr**. Er enghraifft, dywed Diverse Cymru wrthym fod ariannu gwasanaethau yn y tymor hwy, gan gynnwys gwasanaethau a gomisiynir gan y trydydd sector a grwpiau a sefydliadau cymunedol, yn hanfodol i sicrhau y gall gwasanaethau ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau a chymunedau a datblygu gwasanaethau arbenigol, yn hytrach na gorffen a chychwyn bob rhyw dair blynedd (MHI61).

### Byddai data manylach yn rhoi dealltwriaeth gliriach i ni o le mae cydraddoldeb

Nid oes gennym ni **ddata digonol** i ddeall graddau salwch meddwl ymhlith y boblogaeth yng Nghymru, neu i ba raddau y mae grwpiau gwahanol yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Dywed Mind Cymru wrthym nad oes unrhyw fesur arferol, dibynadwy a chymaradwy o gyffredinrwydd problemau iechyd meddwl (sy'n cael eu trin a heb eu trin) o fewn poblogaeth Cymru. O ganlyniad, mae gwir raddfa problemau iechyd meddwl, anghydraddoldebau rhwng grwpiau a newidiadau dros amser yn parhau i fod yn aneglur (MHI47)

Mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y **data demograffig** cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol, **lleiafrifoedd ethnig**, diffyg data ar salwch meddwl yn y boblogaeth hŷn, pobl awtistig, a phobl â nam/colled synhwyraidd. Mae ffocws o hyd hefyd ar allbynnau yn hytrach na chanlyniadau.

Mae datblygu **cyfres ddata graidd iechyd meddwl** yng Nghymru i'w groesawu, ond mae pryderon ynghylch oedi i'r gwaith hwn. Yn ogystal, mae angen mwy o ddata am effaith hirdymor pandemig COVID-19 ar iechyd meddwl.

### Mae angen i bolisi fod yn fwy cydgysylltiedig a chanolbwyntio ar adnoddau yn unol â lefel yr angen

Er bod nifer o ymatebion yn croesawu gweledigaeth a bwriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella iechyd meddwl yng Nghymru, un o'r prif bryderon yw '**trosi polisi yn ymarfer'** (MHI85).

Mae strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' y Llywodraeth yn cael ei hadolygu (mae'r cynllun cyflawni presennol yn dod i ben eleni), ac mae rhanddeiliaid yn gweld hyn fel **cyfle i fynd i'r afael ag anghenion ystod ehangach o gymunedau** sy'n profi gwahaniaethu a/neu anfantais. Mae enghreifftiau a roddir o

grwpiau nad ydynt yn cael eu cynnwys yn benodol yn y cynllun cyflawni presennol yn cynnwys pobl hŷn, sipsiwn a theithwyr, a phobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig. Rhaid i unrhyw strategaeth neu gynllun cyflawni newydd gael ei lywio gan **wersi o'r pandemig COVID-19**, yn enwedig yr anghydraddoldebau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol presennol sydd wedi ymwreiddio ac sy'n ehangu sydd wedi arwain at iechyd meddwl gwaeth (MHI55).

Mae rhanddeiliaid yn disgrifio'r angen i **gysylltu'r amrywiol gynlluniau gweithredu/polisïau** mewn perthynas ag iechyd meddwl a gwahanol grwpiau â nodweddion gwarchodedig a chymunedau sy'n profi gwahaniaethu ac anfantais. Mae nifer o Golegau Brenhinol yn galw ar y cyd am **strategaeth draws-lywodraethol** ar anghydraddoldebau iechyd. Dywed Coleg Brenhinol y Meddygon (MHI15):

> *The Welsh government should take cross-government action to tackle mental health inequalities by pulling together a delivery plan that outlines the action being taken across all government departments, how success will be measured and evaluated, and how individual organisations should collaborate across Wales to reduce health inequalities and tackle the cost-of-living crisis.*

Mae llawer o ymatebion yn amlygu'r angen am gynnydd mewn **cyllid** ar gyfer iechyd meddwl, ond mae angen inni edrych ar **werth am arian** a pha ganlyniadau sy'n cael eu cyflawni (MHI28).

Er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl, mae'r Sefydliad Iechyd Meddwl ac eraill yn galw am ddull **'cyffredinoliaeth gymesur'**, sy'n cydbwyso camau gweithredu cyffredinol (i bawb) â chamau gweithredu wedi'u targedu (ar gyfer grwpiau penodol), ac yn dyrannu adnoddau yn ôl lefel yr angen (MHI90).

> *Under this approach, action should be taken for everyone, but the scale and intensity of interventions should be proportionate to the level of disadvantage experienced.*

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Philippa Watkins

0300 200 6320

Philippa.watkins@Senedd.Cymru

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565


Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Jeremy Miles AS

22 Ebrill 2022

**Plant y Lluoedd Arfog**

Annwyl Jeremy,

Yn ystod trafodaeth am flaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2022, trafododd yr Aelodau lesiant a chanlyniadau addysgol plant y Lluoedd Arfog.

Byddai'n dda gennym gael gwybodaeth gennych am y pwyntiau a ganlyn:

i. Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran galluogi casglu data am blant y Lluoedd Arfog mewn ysgolion drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, yn unol â'r Ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth flaenorol Cymru yn 2019.

ii. Ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Chronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, gan gynnwys i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu'r prosiectau sydd i'w hariannu, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod teuluoedd aelodau o'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cael cyfran deg o gyllid y DU gyfan.

iii. Y data diweddaraf, wedi'u dadansoddi yn ôl awdurdod lleol, ar:

- nifer yr ysgolion lle y mae disgyblion sy'n blant i aelodau o'r Lluoedd Arfog, a nifer y plant i aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n mynd i'r ysgolion hynny;
- cyfraddau absenoldeb ar gyfer plant y Lluoedd Arfog (a'r holl ddisgyblion er mwyn cymharu);
- cyfran y plant i aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd â hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim (a'r holl ddisgyblion er mwyn cymharu);

- cyfran y plant i aelodau o’r Lluoedd Arfog sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (a’r holl ddisgyblion er mwyn cymharu);
- cyrhaeddiad cyfartalog plant y Lluoedd Arfog mewn arholiadau TGAU, wedi’i fesur yn ôl canran y rhai sy'n cyflawni gradd A*-C neu ba bynnag fesur sy’n addas (a’r holl ddisgyblion er mwyn cymharu).

iv. Eich barn ar effeithiolrwydd y prosiect Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog ers ei sefydlu ym mis Medi 2020, safbwynt presennol Llywodraeth Cymru ar ddyfodol Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer plant y Lluoedd Arfog ar ôl mis Medi 2022, a'ch barn ar effeithiolrwydd prosiect Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE) yn fwy cyffredinol.

v. A roddwyd unrhyw ystyriaeth i ymestyn cymhwysedd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i blant y Lluoedd Arfog, fel sy'n wir am y Premiwm Disgyblion yn Lloegr?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon ataf erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 2.16

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 16**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Julie Morgan AS

22 Ebrill 2022

**Cam-drin plant yn rhywiol**

Annwyl Julie,

Yn ystod trafodaeth am flaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2022, un o'r materion a drafodwyd oedd cam-drin plant yn rhywiol. Trafodwyd ei effaith sylweddol ar blant a phobl ifanc ac edrychwyd ar rywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w hatal, ac i gefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd drafod cais gan yr NSPCC i'r Pwyllgor lansio ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth a ganlyn i helpu i lywio ein penderfyniadau yn y maes hwn:

i. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r dystiolaeth gan yr NSPCC bod y cyfyngiadau symud o ganlyniad i COVID-19, a'r ffaith bod hynny'n rhwystr i gael gafael ar gymorth, wedi cynyddu'r risg o gam-drin plant yn rhywiol mewn rhi achosion? Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd – a pha gamau y bydd yn eu cymryd – i sicrhau bod gan yr awdurdodau perthnasol y gallu a'r arbenigedd i ymateb yn briodol i bob achos o gam-drin plant yn rhywiol?

ii. Unrhyw dueddiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi o ran nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant, y rhai a gafodd eu rhoi mewn gofal a'r rhai y mae angen gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol arnynt yn ystod blynyddoedd ariannol 2019-20, 2020-21, a 2021-22?

iii. Diweddariad ar adolygiad Llywodraeth Cymru o'r dystiolaeth o ran effaith ei Chynllun Gweithredu Cenedlaethol: Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a fydd yn dechrau



Senedd Cymru
Welsh Parliament

ar 31 Ionawr 2022, a'i chynlluniau i ymgysylltu â Byrddau Diogelu a rhanddeiliaid eraill ar unrhyw gamau nesaf.

iv. Barn Llywodraeth Cymru ar alwadau gan yr NSPCC am gynllun diogelwch ar-lein gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar blant a phobl ifanc ac sy'n cysylltu'r holl bartneriaid drwy ddull Cymru gyfan o amddiffyn ac atal.

v. Barn Llywodraeth Cymru ar y canlynol:

- canfyddiadau'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn perthynas â Chymru hyd yma yn gyffredinol gan gynnwys ei waith ymchwil a'i adroddiadau ymchwil;
- sut y mae canfyddiadau'r ymchwiliad hwn ledled y DU yn bwydo i mewn i bolisi ac arferion Cymru;
- perfformiad awdurdodau cyhoeddus a amlinellir yn yr Adroddiad o fis Chwefror 2022 ar rwydweithiau wedi'u trefnu yn ardal Cyngor Dinas a Sir Abertawe;
- ymateb Ysgrifennydd Cartref y DU i'r adroddiad hwnnw, gan gynnwys comisiynu arolygiad cenedlaethol i ymateb yr heddlu i gam-drin plant yn rhywiol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon ataf erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 2.17

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 17**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

22 Ebrill 2022

**Y Bil Diogelwch Ar-lein**

Annwyl gyfeillion,

Yn ystod trafodaeth am flaenraglen waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ein cyfarfod ar 31 Mawrth 2022, trafododd yr Aelodau amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag effaith y cyfryngau cymdeithasol ar fywydau plant a phobl ifanc.

Er ein bod yn cydnabod bod yna fanteision niferus, rydym yn parhau i bryderu am effaith y cyfryngau cymdeithasol a chynnwys amhriodol ar-lein ar ddiogelwch a lles plant a phobl ifanc. Mae llawer o'r dystiolaeth sy'n dod i law ar hyn o bryd mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion ymhlith dysgwyr yn tynnu sylw at rôl y cyfryngau cymdeithasol drwy gynnig llwyfan ar gyfer aflonyddu rhywiol, a goblygiadau negyddol cynnwys ar-lein sy'n amhriodol o ran oedran i berthnasoedd ac ymddygiad rhywiol rhai pobl ifanc.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. A allwch chi nodi:

i. safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar brif gymalau'r Bil Diogelwch Ar-lein;

ii. i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil (naill ai yn ystod y cyfnod datblygu neu ar ôl iddo gael ei gyflwyno) a natur yr ymgysylltiad hwnnw;

iii. a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pwyso ar Lywodraeth y DU am unrhyw welliannau penodol i'r Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU;

iv. p'un a ydych, yn sgil y Bil Diogelwch Ar-lein neu fel arall, yn bwriadu diweddaru **cynllun gweithredu cadernid digidol mewn addysg Llywodraeth Cymru i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein** a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Ebrill 2021 (er enghraifft drwy gofnodi cynnydd yn erbyn y camau gweithredu a restrir yn y cynllun hwnnw), a phryd yr ydych yn bwriadu gwneud hynny;

v. eich barn ar alwadau gan NSPCC Cymru am Gynllun Diogelwch Ar-lein newydd, sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar blant a phobl ifanc, sy'n defnyddio dull traws sector sy'n cwmpasu: iechyd, addysg, gorfodi'r gyfraith, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau ieuenctid, addysg, diwydiant a'r trydydd sector.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth hon ataf erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS,

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 18**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

22 Ebrill 2022

**Pwerau Comisiynydd Plant Cymru**

Annwyl Jane,

Yn dilyn ein gwaith craffu blynyddol ar waith y Comisiynydd Plant ym mis Rhagfyr 2021, cawsom bapur gan y Comisiynydd sy'n amlinellu safbwyntiau ar bwerau cyfreithiol a chylch gwaith swyddfa'r Comisiynydd. Deallwn eich bod chi eisoes wedi cael y papur hwn, sydd wedi'i atodi.

Er bod swydd Comisiynydd Plant Cymru ar flaen y gad pan gafodd ei sefydlu, mae'r papur yn amlinellu bod yna rai bylchau sylweddol erbyn hyn sy'n llesteirio gallu'r Comisiynydd i hyrwyddo a chefnogi plant yng Nghymru. Yn ystod y sesiwn graffu flynyddol, cyfeiriodd y Comisiynydd at enghraifft ddiweddar, lle'r unig reswm yr oedd modd iddi ymyrryd mewn perthynas â materion arwyddocaol mewn ysgol breifat yn y gogledd oedd am fod elfen breswyl i'r ysgol. Pe bai'n ysgol ddydd, dywedodd wrthym na fyddai modd iddi ymyrryd. Os felly, mae hyn yn amlwg yn anghyson. Soniodd hefyd am ei hanallu i ymyrryd mewn cartrefi plant preifat neu sefydliadau iechyd meddwl preifat.

Mae'r Comisiynydd yn dadlau bod rhai o'r bylchau yn deillio o bethau sydd wedi'u hepgor a phethau sy'n anghyson yn y ddeddfwriaeth wreiddiol, sydd wedi dod i'r amlwg dros amser. Mae bylchau eraill wedi codi oherwydd newidiadau i'r setliad datganoli ers sefydlu ei swyddfa. Fodd bynnag, mae'r papur hefyd yn amlinellu pryderon eraill, gan gynnwys y ddadl barhaus ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am benodi'r Comisiynydd. Rydym ni'n cytuno â barn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc blaenorol mai'r Senedd a ddylai wneud y penodiad hwn. Mae'r farn hon wedi'i llywio gan y gwaith a wnaed gennym wrth gyfrannu at y broses graffu cyn penodi'r Comisiynydd newydd. Nodwn hefyd fod

adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2014 hefyd yn argymell trosglwyddo'r penodiad i'r Senedd.

Mae'r papur hefyd yn galw am adolygiad o’r broses o ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru, a sut y gellid bwrw ymlaen i’w ymgorffori’n llawn ochr yn ochr â'r newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i gylch gwaith a phwerau'r Comisiynydd.

Nodwn fod Tŷ’r Arglwyddi wrthi’n ymgymryd â gwaith craffu ar ôl deddfu ar Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ar hyn o bryd, gan gynnwys ystyried a oes gan y Comisiynydd yn Lloegr y cylch gwaith a'r pwerau cywir.

Byddai’n dda gennym glywed eich barn ar y materion a godwyd gan y Comisiynydd yn y papur, a pha gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r rhain. Unwaith inni gael eich ymateb, byddwn yn ystyried pa waith pellach y gallem ei wneud yn y maes hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Comisiynydd Plant, a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Papur ar bwerau cyfreithiol a chylch gorchwyl Comisiynydd Plant Cymru**

Tachwedd 2021

Yn 2021, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru (CPC) adolygiad ffurfiol o sut bu Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â dau fater polisi addysg, gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae adroddiad yr Adolygiad hwnnw yn cyflwyno nifer o feysydd lle nodwyd anawsterau neu ddiffygion wrth ymarfer ein pwerau ffurfiol. Mae'r papur hwn yn datblygu'r pwyntiau hynny ymhellach, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad a gyhoeddwyd ar yr Adolygiad.

Mewn ymateb i'r Adolygiad hwnnw, gwrthododd Llywodraeth Cymru alwadau'r Comisiynydd ynghylch ei phwerau cyfreithiol, ond yn dilyn trafodaeth bellach gyda Changen Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru, gofynnwyd i CPC gyflwyno ei meddyliau ynghylch meysydd lle gellid newid neu wella pwerau cyfreithiol y Comisiynydd.

O ran cefndir, mae crynodeb o'n pwerau presennol wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yma

Deddfwriaeth berthnasol

Deddf Safonau Gofal 2000, Rhan V a'r Atodlenni cysylltiedig â'r Ddeddf

Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001

Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chôd Ymarfer Rhan 6

Cefndir / Cyd-destun

CPC oedd y swydd Comisiynydd gyntaf i gael ei chreu yng Nghymru, a'r rôl Comisiynydd Plant gyntaf yn y Deyrnas Unedig.  Hefyd dyma oedd y darn cyntaf 'Cymru'n unig' o ddeddfwriaeth sylfaenol a basiwyd ers datganoli i Gymru. O ganlyniad, seiliwyd y rôl ar ddeddfwriaeth a oedd yn arloesol ar y pryd.

Yn y ddau ddegawd ers hynny, mae llawer y gallwn ei ddysgu o ddeddfwriaeth arall a ddatblygwyd ers hynny mewn perthynas â Chomisiynwyr Plant eraill y Deyrnas Unedig, a Chomisiynwyr statudol eraill Cymru. Ar adegau mae deddfwriaeth CPC wedi cael ei defnyddio'n lasbrint neu'n fan cychwyn ar gyfer swyddfeydd Comisiynwyr eraill. Felly pam mae angen edrych o'r newydd ar gwmpas ac estyniad cylch gorchwyl a phwerau cyfreithiol y Comisiynydd nawr?

Mae'n hanfodol bod Cymru'n cadw i fyny â datblygiadau yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig. Mae'n iawn ein bod ni'n ymfalchïo mai ni oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i greu swydd o'r fath, ond ers hynny mae gwledydd eraill wedi symud y tu hwnt i'r rôl a'r pwerau a grëwyd yng Nghymru.

Defnyddiodd y ddeddfwriaeth yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig ac yn Jersey ar gyfer penodi Comisiynydd Plant agweddau ar ddeddfwriaeth CPC, ond gan ychwanegu atynt a'u cryfhau, er mwyn

creu sylfaen fwy effeithiol i Gomisiynwyr gyflawni eu cylch gorchwyl. Mae'r bylchau a nodwyd yn y sylfaen gyfreithiol ar gyfer CPC yn amlygu y dylid adolygu'r ddeddfwriaeth, gyda golwg ar gryfhau'r mesurau diogelu y mae'r Comisiynydd yn eu darparu ar gyfer hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae achosion diweddar hefyd wedi amlygu diffygion clir yn y pwerau, neu rwystrau o ran sut gall y Comisiynydd ymyrryd er mwyn diogelu ac amddiffyn hawliau pob plentyn yng Nghymru, mewn unrhyw leoliad. Mae pandemig Covid-19 hefyd wedi amlygu'n boenus o eglur yr anghydraddoldebau a'r anfanteision y mae plant mewn ystod eang o leoliadau wedi'u profi a phwysigrwydd pencampwr annibynnol i'w helpu i gael mynediad i'w hawliau, lle mae'r rheiny wedi cael eu cwtogi neu eu diystyru.

Ni fwriadwyd y papur hwn i fod yn hollgynhwysol, ond mae'n ystyried sut gellid symud ymlaen gyda'r broses o newid, gan awgrymu hefyd y dylid datblygu'r ddeddfwriaeth gan y Senedd, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

Cryfderau deddfwriaeth gyfredol CPC

- Deddfwriaeth hanesyddol sydd wedi arwain y ffordd i wledydd eraill ddilyn;
- Ymateb yn uniongyrchol i Ymchwiliad Waterhouse ac o ganlyniad mae'r pwerau'n canolbwyntio'n arbennig ar blant sy'n derbyn gwasanaethau gan wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol;
- Pwerau cyfreithiol cryf mewn rhai sefyllfaoedd i fedru cynnal archwiliadau achos ffurfiol, fel Ymchwiliad Clywch;
- Awdurdod sy'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus datganoledig;
- Y gallu i gefnogi unigolion i symud eu hachosion neu eu cwynion ymlaen ar y lefel isaf, heb orfod cymryd camau cyfreithiol i ddatrys y sefyllfa bob tro, a thrwy hynny wella a chyflymu'r canlyniadau er lles plant a'u teuluoedd;
- Seiliwyd ar hawliau dynol rhyngwladol, gyda gofyniad am roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ymarfer pob swyddogaeth.

Bylchau neu anghysondebau ymddangosiadol – *rhoddir sylw pellach i'r rhain yn y papur hwn*

- Penodir gan y Weithrediaeth yn hytrach na'r Ddeddfwrfa; nid dyma'r arfer a argymhellir ar gyfer sefydliadau hawliau dynol annibynnol;
- Darlun cymysg o ran sut mae modd ymarfer y gwahanol bwerau, gyda rhai heb fanylion gweithredol neu ymarferol sy'n angenrheidiol i'w gwneud yn ddichonadwy;
- Newidiadau i rolau a chylchoedd gorchwyl sefydliadau, a sefydliadau newydd wedi'u creu ers i'r swydd ddod i rym, nad ydynt yn rhan o gylch gorchwyl presennol y Comisiynydd;
- Diffyg gwybodaeth ynghylch sut gall y Comisiynydd fynnu mynediad at ddogfennaeth a lleoliadau wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau;
- Anallu i ymyrryd mewn rhai lleoliadau oherwydd y setliad datganoli presennol.

Mae'r bylchau hyn yn amharu ar allu'r Comisiynydd i gyflawni cylch gorchwyl statudol y swydd yn llawn, gan fod diogelu hawliau plant yn galw am fynediad at sefydliadau a dogfennaeth er mwyn deall sut rhoddwyd sylw dyledus i hawliau plant yng Nghymru. O ganlyniad, mae hyn yn golygu na all y Comisiynydd gefnogi rhai plant nac ymchwilio i'w pryderon, oherwydd y math o leoliad lle

maent wedi digwydd, neu oherwydd nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi pŵer i dderbyn papurau neu fynd i mewn i safleoedd.

<u>Sylwadau yn ystod proses y ddeddfwriaeth wreiddiol</u>

Mae'n werth nodi bod y drafodaeth ynghylch Bil Comisiynydd Plant Cymru 2001, yn Nhŷ'r Arglwyddi, fel y'i cofnodwyd yn Hansard[1], yn amlygu penderfyniad i basio'r Bil yn ddi-oed, a hynny cyn yr etholiad nesaf. Fel y crynhôdd y Farwnes Gale, "efallai nad yw'r Bil yn cynnwys popeth mae pawb eisiau, ond rwy'n sicr y byddai'n well gan yr holl sefydliadau a'r rhai sy'n pryderu am lesiant a hawliau plant gael hyn na'r dewis arall."  Gwnaeth yr Arglwydd Hooson sylw hefyd mai'r "Peth gwaethaf gallen ni gael fyddai comisiynydd aneffeithiol, oherwydd byddai hynny'n rhoi enw drwg i'r system gyfan."

Nododd y Farwnes Farrington o Ribbleton, ar ran y Llywodraeth, fod y penderfyniad i gyfyngu cylch gorchwyl y Comisiynydd i wasanaethau a ddatganolwyd yn unig yn "fater polisi yn hytrach na chyfansoddiad".  Penderfyniad y Llywodraeth a wnaed hefyd ynghylch hawliau mynediad, a godwyd gan nifer o Arglwyddi yn eu cyfraniadau at daith y Bil. Ymateb y Llywodraeth oedd "eu bod am sicrhau bod gan y comisiynydd yr holl bwerau angenrheidiol i fod yn effeithiol, ond nad ydynt yn credu bod hawl mynediad yn angenrheidiol". Roedd y ddeddfwriaeth wreiddiol yn rhag-ddyddio estyniad y setliad datganoli yng Nghymru, ond mae'r swydd gyfatebol yn Lloegr, a ddaeth i rym wedi hynny, yn rhoi pŵer mynediad, yn Adran 2E o Ddeddf Plant 2004 (cynhwyswyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014).  Mae'n werth nodi bod pwerau deilydd y swydd yn Lloegr wedi cael eu hadolygu a'u diwygio 10 mlynedd wedi i'r swyddfa gael ei chreu; mae dros 20 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r swydd gael ei chreu yng Nghymru, ac ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth y tu hwnt i newidiadau canlyniadol.

Yn Nhŷ'r Cyffredin, cadarnhaodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, "y bydd gan y comisiynydd orolwg ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru, yn arbennig y rhai hynny y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn delio â hwy".[2]  (Ar yr adeg hon nid oedd Llywodraeth Cymru yn gorff ar wahân). Er mai hynny oedd y bwriad gwreiddiol o bosib, gwaetha'r modd nid yw pwerau'r Comisiynydd yn cwmpasu holl gyrff cyhoeddus Cymru.

Nododd diwygiad a gyflwynwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar yr adeg hon hefyd: "mae'r Cynulliad yn cadarnhau ei fod yn credu y dylai fod gan Gomisiynydd Plant Cymru bwerau statudol ar draws pob maes sy'n effeithio ar yr holl blant yng Nghymru, ac y dylai ei b/phwerau gynnwys y canlynol:

- Pŵer i fynnu cynnal ymchwiliadau
- Pwerau i orchymyn datgelu gwybodaeth
- Pwerau i fynnu bod awdurdodau a chyrff cyhoeddus yn gweithredu, yn unol â'u dyletswyddau eu hunain."

---

[1] https://api.parliament.uk/historic-hansard/lords/2001/feb/19/childrens-commissioner-for-wales-bill#S5LV0622P0_20010219_HOL_229
[2] https://api.parliament.uk/historic-hansard/commons/2000/dec/13/childrens-commissioner#S6CV0359P0_20001213_HOC_15

Pasiwyd y newid hwn yn unfrydol gan bob un o'r pedair plaid yn y Cynulliad. Mae'n amserol myfyrio ar y bwriad hwnnw a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cefnogi'r Comisiynydd i gyflawni dyletswyddau'r swydd hyd eithaf eu gallu.

Isod ceir rhagor o fanylion ynghylch yr anghysondebau neu'r bylchau hyn, yn ogystal â'r achos o blaid newid.

**Newidiadau a gynigir i ddeddfwriaeth CPC**

Materion gweithredol:

- Mae pob un o'r gwahanol bwerau yn neddfwriaeth y Comisiynydd yn cynnwys lefel wahanol o fanyldeb ynghylch sut mae'r pŵer hwnnw'n cael ei ymarfer.
    - Mewn perthynas ag archwiliadau achosion (a.74 o Ddeddf Safonau Gofal 2000), mae manylion helaeth yn y Rheoliadau ynghylch y weithdrefn berthnasol, a'r broses o gasglu tystiolaeth, gan gynnwys rhagdybiaeth o bwerau tebyg i'r Uchel Lys yng nghyswllt tystion.
    - Mewn perthynas ag adolygu'r trefniadau ar gyfer datgelu camarfer, eiriolaeth a chwynion (adran 73 o Ddeddf Safonau Gofal 2000), mae manylion gweithdrefnol, sy'n cynnwys pennu Cylch Gorchwyl a gofyn bod sefydliadau'n cyflwyno tystiolaeth o fewn terfynau amser penodedig.
    - Nid ymhelaethir ar y pŵer o dan adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (adolygu dull cyrff dynodedig o ymarfer eu swyddogaethau); mae'r ddeddfwriaeth yn ddistaw ynghylch sut ymarferir y pŵer hwn.

Gellid barnu bod bwriad i hyn fod yn gryfder ar adeg drafftio, er mwyn peidio â chyfyngu ar sut byddai'r Comisiynydd yn gallu ymarfer pŵer a.72B. Fodd bynnag, trwy ein defnydd o'r pŵer penodol hwn yn yr Adolygiad diweddar, daeth yn amlwg bod hyn yn cyflwyno rhwystr i rannu papurau perthnasol yn ddiogel er mwyn cwblhau'r adolygiad o sut roedd swyddogaethau Llywodraeth Cymru wedi cael eu hymarfer. Nid oes modd i hawliau plant a phobl ifanc gael eu diogelu'n llawn gan swyddfa'r Comisiynydd heb fynediad i'r holl ddogfennau perthnasol er mwyn deall y prosesau a gyflawnwyd a'r hanes o ran penderfyniadau. Ni fydd y Llywodraeth yn gallu cyflwyno swyddfa'r Comisiynydd fel enghraifft o graffu manwl arnyn nhw, os bydd y ddeddfwriaeth yn parhau fel y mae wedi'i drafftio, gan ei bod yn caniatáu gwrthod y ddogfennaeth y gofynnwyd amdani.

Mae pŵer a.72B yn galluogi'r Comisiynydd i adolygu swyddogaethau Llywodraeth Cymru, ymhlith cyrff eraill. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd yn penodi'r Comisiynydd ac yn darparu cyllid blynyddol ar gyfer y swyddfa. Nid yw pŵer a.72B yn cynnwys pŵer i adolygu swyddogaethau'r Senedd.

**Dyma pam y dylai fod rôl ganolog i'r Senedd wrth benodi ac ariannu swyddfa'r Comisiynydd**. Mae gwrthdaro budd cynhenid yn y ffaith mai'r corff sy'n destun craffu ac yn cael ei alw i gyfrif (LlC) yw ceidwad y pwrs, sy'n rheoli sut caiff y Comisiynydd ymarfer pwerau llawn y swydd. Byddai symud y

broses benodi i’r ddeddfwrfa yn hytrach na’r weithrediaeth yn gwahanu materion gweithredol ac ariannol, a’r rôl graffu, yn glir oddi wrth ei gilydd.

Yn achos yr Adolygiad a.72B, roedd swyddogion wedi awgrymu defnyddio’r fframwaith Rhyddid Gwybodaeth fel cyfaddawd posibl yn hyn o beth. Er bod awgrymu trefniadau amgen i’w groesawu o safbwynt pragmatiaeth, yn ymarferol ni fyddai hynny wedi caniatáu datgelu unrhyw bapurau / gynnwys papurau ychwanegol i’w datgelu i’r swyddfa. Ar ben hynny, fel y nodwyd yn adroddiad yr Adolygiad, nid yw hyn yn rhoi mwy o fynediad at bapurau i’r Comisiynydd nag a allai fod gan aelod o’r cyhoedd. Nid ydym yn credu mai dyna nod nac ysbryd y pŵer hwn yn neddfwriaeth y Comisiynydd.

Mae Egwyddorion Paris[3] yn gofyn bod gan sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol ‘bwerau digonol’, er mwyn iddyn nhw fedru cychwyn ymholiadau ac ymchwiliadau, casglu’r dystiolaeth a’r dogfennau angenrheidiol, ymgynghori â Chyrff Anllywodraethol a sefydliadau’r Wladwriaeth a rhoi cyhoeddusrwydd i’w hadroddiadau, eu canfyddiadau a’u hargymhellion. Ni ellir dweud ar hyn o bryd bod swyddfa a chylch gorchwyl y Comisiynydd yn cyflawni’r egwyddor bwysig honno, tra bod mynediad at sefydliadau a dogfennau i bob pwrpas wedi’i gyfyngu oherwydd absenoldeb eglurder yn y ddeddfwriaeth.

**Dylid penodi’r Comisiynydd gan y Ddeddfwrfa (y Senedd) yn hytrach na’r Weithrediaeth (y Llywodraeth) er mwyn cynnal y gwahaniad oddi wrth y rhai sy’n destun craffu gan y Comisiynydd a phwerau’r swydd.**

**Rydym hefyd yn argymell, fel lleiafswm, bod Rheoliadau CPC sy’n ymwneud ag ymarfer pŵer a.72B yn cael eu hadolygu ac yn destun sylw o’r newydd, er mwyn creu proses ar gyfer rhannu dogfennaeth mewn modd tryloyw a chyfreithlon.**

**Yn ogystal rydym ni’n argymell ystyried y materion isod er mwyn galluogi’r Comisiynydd Plant i ymarfer pwerau’r swydd yn llawn, er budd plant yng Nghymru.**

Meysydd polisi:

- **Darpariaeth breifat i blant:** Nid oes gan y Comisiynydd bwerau cyfreithiol i ymchwilio neu ymholi ynghylch pob ysgol yng Nghymru, er bod addysg wedi’i datganoli. Fel y dangosodd achos 2019 yng ngogledd Cymru, roeddem ni’n gyfyngedig o ran ein pwerau mewn perthynas ag ysgolion annibynnol. Nodwyd trwy gyngor cyfreithiol y byddai gennym ni rai pwerau mewn perthynas â gwasanaethau rheoledig a ddarperir yng Nghymru, sef llety preswyl yn cael ei ddarparu fel rhan o ysgol. Oherwydd bod hon yn ysgol breswyl, roedd yr ysgol dan sylw *yn* rhan o’n cylch gorchwyl, ac roedd ymyriad CPC yn ffactor allweddol o ran diogelu plant yn y lleoliad hwn, ond ar hyn o bryd ni fyddai ysgol ddydd annibynnol yn syrthio o fewn ein cylch gorchwyl.

[3] https://ganhri.org/paris-principles/

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Yn yr un modd, nid yw cartrefi plant preifat (sef mwyafrif y ddarpariaeth cartrefi plant yng Nghymru) na lleoliadau iechyd meddwl plant preifat yn rhan o'n cylch gorchwyl. Ar hyn o bryd mae gennym bryderon ynghylch darpariaeth benodol ym mhob un o'r categorïau hynny.

**Rydym ni'n argymell ehangu categorïau'r gwasanaethau a'r sefydliadau yng Nghymru sy'n rhan o gylch gorchwyl y Comisiynydd o dan Atodlenni 2A a 2B o Ddeddf Safonau Gofal 2000, gan gydnabod anghenion a hawliau plant ym mhob lleoliad yng Nghymru i gael eu cadw'n ddiogel a'u cefnogi.**

- Yn gysylltiedig â hyn, mae gan y Comisiynydd Pobl Hŷn bŵer mynediad[4] i unrhyw safle heblaw preswylfa breifat ar unrhyw adeg resymol, at ddibenion cyfweld â pherson hŷn yng nghyswllt eu pwerau i adolygu sut mae sefydliadau'n cyflawni eu swyddogaethau. Mae gan Gomisiynydd Plant Lloegr bwerau mynediad i leoliadau[5] yn ogystal, ac mewn gwirionedd byddai ganddyn nhw fwy o bwerau mynediad i ymweld â phlant mewn lleoliadau diogel yng Nghymru na CPC. Gallai pŵer tebyg i CPC fod yn ffordd amgen o newid pwerau'r Comisiynydd Plant yng nghyswllt ysgolion annibynnol, ond hefyd byddai hynny'n cwmpasu lleoliadau caeedig eraill megis darpariaeth cyfiawnder ieuenctid/warchodol sydd y tu allan i gylch gorchwyl y Comisiynydd ar hyn o bryd. Er ein bod yn mwynhau perthynas waith gynhyrchiol â'r ddau leoliad gwarchodol yng Nghymru (HMP Parc YOI a Chartref Plant Diogel Hillside), nid yw'n ofynnol eu bod yn cydweithio â'r swyddfa ac ni ellid eu gorfodi i wneud hynny petai amheuon neu honiadau ynghylch digwyddiad difrifol. Nawr bod gwaith yn mynd rhagddo ar lety therapiwtig diogel newydd a lleoliadau llety newydd o dan y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, mae'n amserol ystyried sut bydd hawliau plant mewn lleoliadau o'r fath yn cael eu diogelu a'u cynnal.

  Pwerau mynediad a chael gweld cofnodion fyddai'r elfennau allweddol i'w hystyried, yn ein barn ni.

  **Rydym ni'n argymell ystyried sut gellid ehangu cylch gorchwyl CPC i gynnwys pŵer mynediad i unrhyw safle heblaw preswylfa breifat ar unrhyw adeg resymol, at ddibenion siarad â phlentyn neu berson ifanc mewn perthynas â'u pwerau i adolygu sut mae sefydliadau'n cyflawni eu swyddogaethau.**

- Sefydlwyd swyddfa CPC mewn ymateb i ganfyddiadau ymchwiliad Waterhouse, ac oherwydd cyd-destun yr ymchwiliad arbennig hwnnw, mae gennym bwerau datblygedig yng nghyswllt plant y mae dyletswyddau parhaus yn ddyledus iddynt gan y gwasanaethau cymdeithasol ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed. Mae hyn yn amlygu dau fater perthnasol wrth ystyried pwerau'r Comisiynydd ar hyn o bryd:

[4] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/30/section/13
[5] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/pdfs/ukpga_20040031_en.pdf section 2(8) Children Act 2004

- Mae geiriad y pŵer hwn yn ein deddfwriaeth yn cysylltu'n ôl â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r dyletswyddau cysylltiedig i gefnogi ymadawyr gofal ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed. Yn achos rhai pobl ifanc mae hyn yn codi i 25 oed, ond yn achos eraill y sefyllfa swyddogol yn y ddeddfwriaeth yw bod y gefnogaeth honno'n dod i ben yn 21 oed. Er ein bod wedi croesawu a chefnogi cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i wasanaethau cymdeithasol y dylen nhw bellach fod yn ariannu Ymgynghorwyr Personol i bawb sy'n gadael gofal hyd at 25 oed[6], hyd nes bod y ddeddfwriaeth berthnasol yn cael ei newid i adlewyrchu hynny, bydd yn effeithio ar y dehongliad o'r pŵer hwn yn neddfwriaeth y Comisiynydd. Rydym wedi dehongli hyn mewn modd pwrpasol; gan barhau i gefnogi ymadawyr gofal hyd at 25 oed a herio awdurdodau lleol nad ydynt yn cydymffurfio â chyfarwyddyd LlC, ond os daw cwyn, nid yw safbwynt ffurfiol y ddeddfwriaeth yn ein cefnogi ar hyn o bryd. Rydym ni'n ymwybodol o gynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn cywiro hyn, ond rydym ni'n gwneud y pwynt hwn yma yn syml i dynnu sylw at y galwadau a wnaed mewn nifer o adroddiadau blynyddol dilynol ynghylch hyn.

- Ar ben hynny, gallai fod angen gwneud newidiadau canlyniadol i'n deddfwriaeth, yng ngoleuni'r ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd sy'n estyn dyletswyddau hyd at 25 oed. Ar hyn o bryd ni allwn gefnogi plant a theuluoedd unwaith mae eu plentyn yn cyrraedd 18 oed; ond mae addysg ffurfiol yn parhau tan 19 oed o leiaf yn achos llawer o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dylid nodi bod y gefnogaeth i blant ag AAA/ADY wedi bod yn faes amlwg yn gyson yng ngwaith achosion ein swyddfa o flwyddyn i flwyddyn.

- Gallai datblygu a gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid i Gymru sy'n estyn hyd at 25 oed hefyd fod o ddiddordeb wrth ystyried terfynau cylch gorchwyl y Comisiynydd, er mwyn sicrhau bod modd i'r swyddfa gefnogi pobl ifanc sy'n derbyn gwasanaethau gwaith ieuenctid lle mae problemau neu anawsterau'n codi, a galw sefydliadau perthnasol i gyfrif wrth wneud hynny.

**Byddem ni'n agored i gynnal trafodaeth ynghylch cyfyngiadau ein cylch gorchwyl mewn perthynas ag oed, yng nghyd-destun darnau penodol o ddeddfwriaeth neu strategaethau. Nodir y gallai hyn alw am newidiadau y tu hwnt i Reoliadau'r Comisiynydd eu hunain, ac y byddai hefyd yn anochel yn cynyddu gofynion y swyddfa o ran adnoddau.**

<u>Materion ehangach:</u>

Newidiwyd deddfwriaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) yn 2019, i greu pwerau newydd ar gyfer yr Ombwdsmon:

- derbyn cwynion ar lafar;
- cynnal ymchwiliadau ar eu menter eu hun;
- ymchwilio i driniaeth feddygol breifat, gan gynnwys gofal nyrsio ar lwybr iechyd cyhoeddus/preifat;
- cyflawni rôl mewn perthynas â safonau a gweithdrefnau delio â chwynion.

[6] Mewn ymateb i'n hadroddiad Breuddwydion Cudd

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Roedd deddfwriaeth flaenorol yr Ombwdsmon, a ddiwygiwyd, yn dyddio o 2005. Mewn cyferbyniad, nid edrychwyd o'r newydd ar ddeddfwriaeth CPC ers iddi ddod i rym yn 2000 a 2001.


Bu angen sawl blwyddyn i basio'r ddeddfwriaeth oedd yn newid PSOW; o ganlyniad, rydym ni'n credu bod angen gweithredu ar frys yn y cyswllt hwn. Rydym ni'n credu bod y papur hwn a'n Hadolygiad Statudol yn cyflwyno achos cryf o blaid newid, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael eu diogelu ac yn derbyn eu hawliau, ble bynnag maen nhw'n byw neu'n derbyn gwasanaethau. Dyna oedd bwriad gwreiddiol y ddeddfwriaeth pan gafodd ei chyflwyno, ac mae'n briodol bod y darpariaethau, ugain mlynedd yn ddiweddarach, yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn rhoi'r effaith fwyaf sy'n bosibl i weithrediad y pwerau cyfreithiol a luniwyd i ddiogelu'r hawliau plant hynny.

Yn 2021, pasiodd Senedd yr Alban Fil yn unfrydol i ymgorffori CCUHP yng nghyfraith y wlad. Heriwyd y Bil gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y Goruchaf Lys ar sail gyfansoddiadol; anfonodd y dyfarniad ym mis Medi y Bil yn ôl at Senedd yr Alban, ond ar y sail bod rhai adrannau yn ceisio cyfyngu ar bwerau deddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid oedd darpariaeth o'r fath yn gydnaws â'r setliad datganoli, lle **na** fynegodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig anfodlonrwydd ynghylch penderfyniad Senedd yr Alban i ymgorffori CCUHP, a "chydnabuwyd bod hwn yn fater i Senedd yr Alban"[7]. Nid yw unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r Bil yn ymwneud ag ymgorffori CCUHP yn llawn a rhoi CCUHP ar waith yn yr Alban a chan gyrff cyhoeddus datganoledig.

Byddai Bil yr Alban yn rhoi hwb pellach i'r amddiffyniad a roddir i hawliau dynol plant yn yr Alban, gan fynd y tu hwnt i'r trefniadau yma yng Nghymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, sy'n gyfystyr ag ymgorffori rhannol yn unig. Mae dadl gref yn parhau dros ymgorffori CCUHP ymhellach yma yng Nghymru.

Mewn digwyddiad gweminar ym mis Hydref 2021[8], cyflwynodd yr Athro Kilkelly ganfyddiadau ei llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Incorporating the UN Convention on the Rights of the Child', y dadansoddiad cynhwysfawr cyntaf o gynnydd ar draws y byd tuag at rymuso'r Comisiwn ar Hawliau'r Plentyn yn gyfreithiol. Rhannodd yr Athro Kilkelly gipolwg ar yr heriau a'r llwyddiannau a welwyd mewn amrywiol wledydd wrth ymgorffori'r Confensiwn yn eu cyd-destunau unigryw eu hunain. Yn y digwyddiad rhyngwladol hwn, amlygodd sut mae Cymru wedi cyrraedd ail gyfnod y daith ymgorffori yn unig, fel y dangosir yn y diagram sy'n dilyn:

[7] REFERENCES (Bills) by the Attorney General and the Advocate General for Scotland - United Nations Convention on the Rights of the Child and European Charter of Local Self-Government (Incorporation) (Scotland) [2021] UKSC 42 (06 October 2021) (bailii.org) paragraff 4 o'r dyfarniad
[8] http://www.crae.org.uk/news/rock-event-on-incorporating-the-un-convention-on-the-rights-of-the-child-into-national-law-with-ursula-kilkelly/




Nid yw pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gryfach na'r darpariaethau deddfwriaethol eraill sy'n cynnal sut maent yn gweithredu. Er bod modd i'r Comisiynydd adolygu sut mae cyrff cyhoeddus yn ymarfer eu swyddogaethau, ar hyn o bryd nid oes dyletswydd ar gyrff megis byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i weithredu'n gydnaws â hawliau plant nac i ddangos sut maen nhw wedi gwneud hynny. Mae enghreifftiau yn ystod y pandemig megis cadw parciau a chanolfannau hamdden ar gau yn ardaloedd rhai awdurdodau lleol yn dangos cyn lleied y gall y Comisiynydd ei wneud i'w herio, cyhyd â bod ALlau wedi *ystyried* hawliau plant wrth wneud eu penderfyniadau, hyd yn oed os nad yw'r penderfyniad terfynol yn cynnal hawliau plant. Gellir dweud yr un peth am y model 'sylw dyledus' sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru o dan Fesur 2011; nid yw rhoi sylw i hawliau yr un fath â gweithredu'n gydnaws â hwy.

Dim ond trwy ymgorffori CCUHP yn llawn ac yn uniongyrchol yng nghyfraith gwlad Cymru y gellir sicrhau newid yn arferion cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Bydd hyn hefyd yn fodd i'r Comisiynydd, ond hefyd i aelodau o'r cyhoedd, alw'r cyrff hynny i gyfrif yn fwy effeithiol lle nad ydynt wedi gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â hawliau plant. Ond yn bwysicach fyth, bydd yn newid sut mae cyrff cyhoeddus yn meddwl am hawliau ac yn eu cymhwyso wrth wneud penderfyniadau, gan sicrhau profiadau gwell i blant a'u teuluoedd.

**Rydym ni'n argymell adolygu ymgorfforiad CCUHP yng Nghymru hyd yma, a symud ymlaen i ymgorffori CCUHP ymhellach, mewn cydweithrediad â newidiadau i gylch gorchwyl a deddfwriaeth y Comisiynydd. Byddai hynny'n gwella profiadau uniongyrchol plant a theuluoedd yn sylfaenol wrth dderbyn gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru a/neu eu gallu i herio'n effeithiol lle na fyddai'r profiad hwnnw'n cyd-fynd â'u hawliau.**

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 19**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

22 Ebrill 2022

**Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta yng Nghymru**

Annwyl Lynne,

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar 31 Mawrth. Fel rhan o'r drafodaeth hon, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau anhwylderau bwyta yng Nghymru.

Gwnaethom nodi'r adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan Beat, sef yr "Adolygiad gwasanaeth anhwylder bwyta yng Nghymru - 3 blynedd yn ddiweddarach". Nododd Beat rai argymhellion clir i wella gwasanaethau a sicrhau bod y gefnogaeth yn fwy cyfartal ledled Cymru, gan gynnwys yr angen am fodel gwasanaeth cenedlaethol newydd gydag amserlenni clir a ffocws cryfach ar ymyrraeth gynnar.

Fel y gwyddoch, roedd yr adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers adolygiad y Gwasanaeth Anhwylder Bwyta dair blynedd yn ôl. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod y cynnydd a wnaed yn "hynod anghyson" a bod annhegwch o hyd o ran darparu gwasanaethau ledled Cymru. Nodwyd nifer o ffactorau a allai fod wedi effeithio ar gynnydd, yn amrywio o'r amser a gymerodd i'r Llywodraeth ymateb i'r adolygiad cychwynnol, i faterion ehangach o ran ariannu ac adnoddau, ac, wrth gwrs, y pandemig. Wrth ymateb i gwestiwn am y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Ionawr 2022, nodwn eich bod wedi ymrwymo i ddefnyddio'r adroddiad i lywio eich gwaith yn y dyfodol. Byddai'n dda gennym gael gwybod eich ymateb i'r argymhellion hyn, a sut yr ydych yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Yn y Cyfarfod Llawn, gwnaethoch ddweud hefyd fod yr arweinydd cenedlaethol wedi gadael y swydd a'ch bod yn “edrych ar fodel newydd” i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cyflawni'n genedlaethol. Mae adroddiad Beat yn sôn am ba mor bwysig yw cael Arweinydd Cenedlaethol. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich syniadau ynghylch y model newydd hwn, gan gynnwys sut y byddai'n cael ei arwain, a phryd y mae'n debygol o gael ei roi ar waith?

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Gwener 27 Mai 2022 fan bellaf.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS,

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-09-22 - Papur i'w nodi 20**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

11 Ebrill 2022

Annwyl Gadeirydd,

Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: adroddiad diweddaru

Cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 7 Chwefror 2022. Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd i gyhoeddi adroddiad byr yn tynnu sylw at rai o'r themâu allweddol a gododd yn ystod ein gwaith craffu, sydd ar gael ar-lein.

Rydym wedi gosod yr amcan i'n hunain hyrwyddo cydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar draws y Senedd, gan gynnwys ei phwyllgorau. Ein bwriad yw gwneud cais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y materion a godwyd yn ein hadroddiad, ond yn y cyfamser hoffem dynnu eich sylw ato gan fod rhai o'r materion a godwyd yn haeddu ystyriaeth bellach gan yr Aelodau yn eu gwaith craffu.

Yn gywir

Jenny Rathbone
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon